



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb 2015–2016

Adroddiad Interim Gweinidogion
Cymru am Gydraddoldeb 2016

Gweithio dros Gydraddoldeb yng Nghymru

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Pennod 1	5
Rhagarweiniad	5
Pennod 2	7
Cyflawni ein Dyletswyddau ym maes Cydraddoldeb	7
Polisi a Deddfwriaeth	7
Cyllid	10
Ymgysylltu	13
Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	17
Caffael	19
Y Sail Dystiolaeth	21
Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol	22
Pennod 3	24
Y Cynnydd o'i Gymharu ag Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol	24
Amcan 1	26
Amcan 2	28
Amcan 3	36
Amcan 4	40
Amcan 5	43
Amcan 6	48
Amcan 7	54
Amcan 8	57
Pennod 4	64
Edrych Tua'r Dyfodol	64
Pennod 5	66
Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb 2016	66

Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru am Gydraddoldeb 2015-16. Yr adroddiad hwn yw fy nghyntaf fel Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ac mae'n canolbwyntio ar gyfnod adrodd 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2016. Mae'r cyfnod adrodd hwn yn nodi diwedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 a'i Amcanion ac fe gyhoeddir gwerthusiad sy'n ymdrin â'r cyfnod yn ei gryswth ar wahân i'r adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Amcanion 2012-2016 wedi bod yn sbardun pwysig o blaid newid yng Nghymru, o ddeddfwriaeth nodedig megis Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i fframwaith arloesol Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu. Yn ystod 2015-2016, aethom ati i barhau i adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol yr oeddem wedi'i wneud yn ystod y tair blynedd blaenorol gan gymryd rhagor o gamau ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb yng Nghymru ac i wella bywydau'r rheini sydd fwyaf ar y cyrion ac yn wynebu'r anfanteision mwyaf.

Ym mis Hydref 2015, lanswyd Cais am Dystiolaeth i'n helpu i ddeall yn well yr heriau a'r rhwystrau sy'n cyfrannu at ddiffyg cynrychiolaeth deg i grwpiau penodol ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus, a'r camau sydd wedi llwyddo i fynd i'r afael â hyn yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r canfyddiadau hyn i ddatblygu ein hymateb i ddiffyg cynrychiolaeth deg mewn penodiadau cyhoeddus.

Fel rhan o roi Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar waith, ym mis Medi 2015, penodwyd Rhian Bowen-Davies yn Gynghorydd Cenedlaethol Cyntaf ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, a mathau eraill o Drais seiliedig ar Rywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol i Lywodraeth Cymru ac yn gwella'r cydweithio ymhlith cyrff cyhoeddus.

Rydym wedi parhau i helpu ystod eang o gyrff i ddarparu cyngor annibynnol am ddim ac wedi darparu £2.2 miliwn i gefnogi gwasanaethau cynghori'r rheng flaen am faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, dyled, tai a gwahaniaethu. Mae'r gwasanaethau hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth hanfodol sy'n gallu gwella'u bywydau'n sylweddol.

Rydym bellach yn edrych tua'r pedair blynedd nesaf, wrth inni gyhoeddi ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020 ym mis Mawrth 2016. Mae'r wyth amcan cydraddoldeb diwygiedig wedi'u seilio ar ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth â grwpiau gwarchoddedig. Roedd yr adborth a gawsom yn amlwg o blaid cadw nodau ac egwyddorion y set gyntaf o amcanion cydraddoldeb gan ehangu ar yr un pryd y gallu i gwmpasu gwaith Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant a chydlyniant cymunedol. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymgysylltu a'r ymgynghori a arweiniodd at ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb newydd.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb, sy'n rhoi golwg gyffredinol ar y cynnydd y mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig wedi'i wneud o ran cyflawni dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r Adroddiad Interim yn cynnig diweddariad ar y camau sydd yn Adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb, a gyhoeddwyd yn 2014, ac mae'n dangos y cynnydd amlwg sydd wedi'i wneud yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'n bwysig ein bod yn cynnal y momentwm y llwyddwyd i'w greu dros y pedair blynedd diwethaf ac yn cyfrannu at gyflawni Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys gwneud Cymru'n genedl fwy cyfartal sydd â chymunedau cydlynus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu Cymru unedig, gydgysylltiedig, lle bydd cyfle ar gael i bawb. Mae'r llwyddiannau y sonnir amdanynt yn yr adroddiadau hyn yn sylfaen gadarn inni adeiladu arni yn y dyfodol ac yn dangos yn glir bod cydraddoldeb wedi bwrw gwreiddiau yng ngweithredu Llywodraeth Cymru, ac y bydd hynny'n parhau.



Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Pennod 1 – Rhagarweiniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru dynnu sylw at ei gwaith i greu Cymru fwy cyfartal, lle bydd gan bawb y cyfle i gyflawni ei botensial. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at amrywiaeth o gamau o bortffolios gwahanol Weinidogion sy'n adlewyrchu ymagwedd drawsbynciol Llywodraeth Cymru at fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb yng Nghymru.

Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol ar bymtheg am Gydraddoldeb, ac mae'n ymdrin â'r flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2016. Cyflwynir yr adroddid cyfun hwn o dan ein gofynion adrodd statudol sy'n cwmpasu adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a rheoliad 16 o Reoliadau Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Yn ôl Adran 77(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gofyn i Weinidogion Cymru adrodd am sut y maent wedi cyflawni'r ddyletswydd yn adran 77(1) gan gynnwys i ba raddau y maent wedi llwyddo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Noda Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

- (1) Welsh Ministers must make appropriate arrangements with a view to securing their functions are exercised with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people.
- (2) After each financial year the Welsh Ministers must publish a report containing:
 - (a) a statement of the arrangements made in pursuance of subsection (1) which had effect during that financial year, and
 - (b) an assessment of how effective those arrangements were in promoting equality of opportunity, and must lay a copy of the report before the Assembly.

Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)

Disodlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 y gyfraith wrthwahaniaethu flaenorol, gan ei chyfuno i greu un Ddeddf unigol. Mae'r Ddeddf yn cwmpasu gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Cyfeirir at y categorïau hyn yn y Ddeddf fel 'nodweddion gwarchoddedig'.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus (y cyfeirir ati hefyd fel dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac fel y 'ddyletswydd gyffredinol'), wrth wneud ei waith, i roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin cydberthnasoedd da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

Er mwyn i gyrff cyhoeddus berfformio'n well a dangos eu bod yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, deddfodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y cyfeirir atynt hefyd fel Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru).

Mae Rheoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn sy'n sôn am y canlynol:

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Noda Rheoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011:

- (1) Rhaid i awdurdod, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, gyhoeddi adroddiad heb fod yn hwyrach na'r dyddiad perthnasol yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y mae'r cyfnod adrodd hwnnw'n diweddu ynddi.
- (2) Rhaid i'r adroddiad nodi —
 - a) y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol;
 - b) mewn cysylltiad â gwybodaeth berthnasol y mae'n ei dal, sut y mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau yn y Rheoliadau hyn;
 - c) rhesymau'r awdurdod dros beidio â chasglu unrhyw wybodaeth berthnasol y mae wedi ei nodi ond nad yw'n ei dal;
 - d) y cynnydd y mae'r awdurdod wedi ei wneud er mwyn cyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb;
 - e) datganiad gan yr awdurdod ar effeithiolrwydd y canlynol —
 - i. ei drefniadau er gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol; a
 - ii. y camau y mae wedi eu cymryd er mwyn cyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb; a
 - iii. yr wybodaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei chyhoeddi o dan reoliad 9(4) oni bai bod yr awdurdod eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth honno.
- (3) Caiff yr awdurdod, os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnwys mewn adroddiad unrhyw fater arall sy'n berthnasol ar gyfer cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau yn y Rheoliadau hyn.
- (4) Caiff yr awdurdod gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad o dan baragraff (1) drwy osod ei adroddiad (gan gynnwys unrhyw fater y cyfeirir ato ym mharagraff (3)) fel rhan o ddogfen gyhoeddedig arall neu o fewn nifer o ddogfennau cyhoeddedig eraill.

Pennod 2 – Cyflawni ein Dyletswyddau ym maes Cydraddoldeb

Mae amrywiaeth o waith yn cael ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru sy'n mynd ati'n frwd i hyrwyddo cyfle cyfartal, sy'n dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac sy'n meithrin cydberthnasau da. Rhestrir nifer o ddatblygiadau o bwys ers cyfnod adrodd 2015-2016 yn rhan gyntaf y bennod hon ac fe'u cyflwynir o dan y penawdau a ganlyn:

1. Polisi a Deddfwriaeth
2. Cyllid

Yn ail ran y bennod hon, rhestrir y camau yr ydym wedi'u cymryd i gyflawni ein dyletswyddau gyda golwg ar reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cyflwynir yr wybodaeth o dan y penawdau a ganlyn:

3. Ymgysylltu
4. Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb
5. Caffael
6. Y Sail Dystiolaeth
7. Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol

Polisi a Deddfwriaeth

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Pwrpas y Bil yw diwygio a gwella'r system ddeddfwriaethol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, cyfeirir at y dysgwyr hyn fel rhai sydd ag anghenion addysg arbennig neu anhawster a/neu anabledd dysgu. Amcanion polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru o ran y Bil drafft yw creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig i fod yn gefn i blant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- proses asesu, cynllunio a monitro integredig a chydweithredol sy'n hwyluso ymyraethau cynnar, prydlon ac effeithiol
- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.

Yn ystod 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar gyfer ymgynghori. Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu helaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2015. Roedd hyn yn cynnwys dau ddigwyddiad cenedlaethol i nifer o asiantaethau yn y gogledd a'r de a chyfres o weithdai ledled Cymru gyda phlant a phobl ifanc yn benodol. Cynhaliwyd 19 o weithdai mewn 16 o leoliadau ledled Cymru, a daeth cyfanswm o 222 i'r rhain. Mae sylwadau'r dysgwyr hyn yn llywio'r ffordd y mae'r Bil yn cael ei ddatblygu, y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rhaglen trawsnewid ehangach.

Cyn cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio'r Bil drafft, i ddatblygu rhagor ar God Anghenion Dysgu Ychwanegol a deunyddiau atodol, i greu cynllun gweithredu manwl ac i helpu'r gweithlu i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr yn effeithiol ac yn hyderus.

Cynllun Gweithredu i Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Drawsrywiol

Ym mis Mawrth 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl drawsrywiol. Bydd y Cynllun Gweithredu'n sbarduno camau ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro pobl drawsrywiol rhag bod yn gyfartal, gyda'r bwriad o sicrhau gwelliannau penodol i fywydau pobl drawsrywiol.

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu ar ôl cyfnod ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos a chyfres o gyfarfodydd â grwpiau ffocws o bobl drawsrywiol. Nod yr ymgynghori oedd clywed gan aelodau'r gymuned nad oedd Llywodraeth Cymru wedi'u cyrraedd o'r blaen. Nid oes llawer o dystiolaeth ar gael am brofiadau pobl drawsrywiol, yn enwedig dystiolaeth sy'n benodol i Gymru. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i ofyn cwestiynau penodol am y materion sydd o bwys i bobl drawsrywiol yng Nghymru.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda grwpiau rhanbarthol o bobl drawsrywiol ac yn ymweld â grwpiau ffocws yn y gogledd a'r de. Yn ystod yr ymgynghori, cafodd Llywodraeth Cymru 62 o ymatebion ysgrifenedig, gan ymgysylltu ag oddeutu 70 o aelodau'r gymuned.

Roedd yn bwysig ymgysylltu ag aelodau'r gymuned drawsrywiol yn uniongyrchol wrth lunio'r Cynllun Gweithredu. Clywsom gan bobl drawsrywiol ag ystod eang o brofiadau a hunaniaethau am sut y gall bod yn drawsrywiol effeithio ar lawer agwedd ar eu bywydau. Soniodd ein rhanddeiliaid am gamganfyddiadau a diffyg dealltwriaeth ynghylch materion trawsrywiol yn ein cymunedau, ein hysgolion, ein gweithleoedd ac ymhlith darparwyr gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi camau pendant i fynd i'r afael â meysydd sy'n destun pryder yn ein cymunedau. Dyma rai ohonynt: mynd i'r afael â throseddau casineb trawsffobig; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; hyrwyddo cydraddoldeb mewn gwasanaethau tai; a gweithio gyda Chwaraeon Cymru i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl drawsrywiol rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hefyd yn cynnwys camau sydd wedi'u hanelu'n benodol at wella cydraddoldeb i blant a phobl ifanc drawsrywiol drwy fynd i'r afael â bwlio a chryfhau'r ymwybyddiaeth o faterion trawsrywiol ymhlith y rheini sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cydraddoldeb yn ein gwasanaethau iechyd. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys camau i ddatblygu a gweithredu Strategaeth GIG Cymru ar gyfer Cymru a fydd yn cynnwys llwybr gofal a chanllawiau i ymarferwyr gofal iechyd.

Safonau Iechyd a Gofal

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn cyflwyno fframwaith safonau cyffredin Llywodraeth Cymru i helpu'r GIG a chyrrff partner i ddarparu gwasanaethau o ansawdd a hynny'n effeithiol ac yn brydlon ym mhob lleoliad gofal iechyd.

Cyhoeddwyd fframwaith Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig ym mis Ebrill 2015, gan ddwyn ynghyd nifer o setiau o safonau a fu gynt ar wahân. Mae'r safonau diwygiedig wedi'u trefnu yn ôl saith thema Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni'r GIG, ac mae'r rhain, gyda'i gilydd, yn disgrifio sut mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd, sy'n ddiogel ac yn ddibynadwy ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sylweddoli

y dylai gofal fod yn gyfannol ac y dylai felly gynnwys dimensiwn ysbrydol, bugeiliol a chrefyddol. Felly, mae'r safonau ar gyfer darparu Gofal Gydag Urddas bellach yn disgwyl i brofiad unigolyn o ofal iechyd fod yn brofiad lle bydd pawb yn cael ei drin gydag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd gan gydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol yr unigolyn a rhoi sylw iddynt. Mae'r safonau ar gyfer Gofal Unigol hefyd yn cydnabod y dylid parchu hawliau pobl a herio camwahaniaethu.

Nod y safonau yw bod yn gefn i hawl unigolyn i gael gofal ardderchog o ansawdd da sy'n cydnabod ei anghenion unigol.

Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl

Cyhoeddwyd y Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl ym mis Rhagfyr 2015 ac mae'n ddatganiad ar y cyd o ymrwymiad, a gadarnhawyd gan uwch arweinwyr y sefydliadau sy'n ymwneud fwyaf ag ymateb i argyfwng iechyd meddwl. Nod y Concordat yw gwella'r gofal a'r cymorth i bobl sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl neu'r rhai y mae perygl iddynt wynebu argyfwng o'r fath ac sy'n debygol o gael eu cadw dan glo o dan adran 135 neu adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'n dweud sut y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, gan gynnwys yr heddlu a'r GIG, gydweithio i gynnig ymateb o safon pan ddaw'r bobl hyn i gysylltiad â'r Heddlu. Un elfen bwysig yw y bydd yn helpu i atal pobl rhag cael eu cadw dan glo'n amhriodol yn nalfa'r heddlu, ac yn eu hatal rhag cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn ddiangen.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymunedol

Fel rhan o strategaeth iechyd meddwl Llywodraeth Cymru, "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" a chynllun cyflawni tair blynedd newydd, mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid iechyd meddwl allweddol eraill wedi ymrwymo i wella gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol drwy Gymru.

Yn 2015-2016, darparwyd £1.5m o gyllid ailadroddus i ddatblygu gwasanaethau amenedigol arbenigol yn y gymuned, gyda'r nod o ddarparu cymorth gwell i fenywod a theuluoedd sydd â phroblemau iechyd meddwl amenedigol, neu sydd mewn perygl o wynebu problemau o'r fath.

Roedd gofyn i bob bwrdd iechyd gyflwyno cynigion ar gyfer gwasanaethau amenedigol cydweithredol ac amlddisgyblaeth yn y gymuned, a fydd yn adeiladu ar wasanaethau sydd ar gael eisoes. Bydd y byrddau iechyd yn sicrhau bod gwasanaeth amenedigol cymunedol ar gael yn hwylus ym mhob rhan o Gymru erbyn mis Tachwedd 2016. Er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaethau hyn, sefydlwyd Cymuned Ymarfer, a fydd yn golygu bod modd rhannu hyfforddiant a'r arferion gorau.

Rhaglen Adsefydlu Syriaid

Er mwyn ymateb i'r argyfwng dynol yn Syria, cynigiwyd y dylai'r Deyrnas Unedig helpu i adsefydlu hyd at 20,000 o ffoaduriaid o Syria drwy gyfrwng y Rhaglen Adsefydlu Syriaid. Ar ôl y cyhoeddiad, cynhaliodd y Prif Weinidog Uwch-gynhadledd ym mis Medi 2015, a ddaeth ag asiantaethau allweddol a darparwyr gwasanaethau ynghyd i gyd-ddatblygu'r ymateb ar y cyd mwyaf effeithiol i'r argyfwng. Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar gyd-ddatganiad yn yr uwch-gynhadledd gan gadarnhau ymrwymiad Awdurdodau Cyhoeddus a'r

Trydydd Sector i gymryd rhan yn y cynllun i adsefydlu ffoaduriaid o Syria. Canlyniad yr Uwchgynhadledd oedd creu Tasglu Ffoaduriaid Syria, a gyfarfu ddwywaith yn 2015-2016 ac a fu'n goruchwyllo'r paratodau ar gyfer y rhaglen adsefydlu yng Nghymru.

Cynhaliwyd cynhadledd 'croeso i Gymru' ym mis Tachwedd 2015. Roedd y gynhadledd yn gyfle i randdeiliaid glywed gan arbenigwyr drwy'r Deyrnas Unedig ac i drafod dulliau ymarferol o adsefydlu ffoaduriaid o Syria yng Nghymru. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru becyn 'Croeso i Gymru' sy'n rhoi gwybodaeth bwysig am fywyd yma. Cyhoeddwyd fersiwn i blant a phobl ifanc hefyd. Mae'r pecynnau ar gael yn Saesneg, yn Gymraeg ac mewn Arabeg a byddant yn ddefnyddiol i bob ffoadur yng Nghymru, nid dim ond i'r rhai sy'n cyrraedd drwy gyfrwng y Rhaglen Adsefydlu Syriaid.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni tair blynedd ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Mae'n cynnwys y camau cydweithredol a fydd yn galluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i gael y cyfleoedd i ddysgu, ffynnu a chyfrannu at fywyd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer ceiswyr lloches y cytunwyd arnynt drwy broses ymgysylltu ac ymgynghori.

Cyllido

Y Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Mae ein hymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a thegwch yn cael ei adlewyrchu yn ein Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Grant tair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2014 oedd hwn ac mae'r rhaglen yn darparu cyllid ar gyfer un ar bymtheg o gyrff yn y Trydydd Sector i'w helpu i gyrraedd grwpiau na chlywir eu llais yn aml, ac i fod o fudd i unigolion a chymunedau yng Nghymru gan wella'u bywydau'n sicr.

Mae'r cyllid yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb oherwydd ei fod o fudd uniongyrchol i bobl sy'n aml yn wynebu allgau, anfantais a gwahaniaethu annheg, ac oherwydd ei fod yn cefnogi gwaith pwysig y Trydydd Sector wrth gyfrannu at gyflawni Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid yn cael ei rannu'n gytbwys rhwng y nodweddion gwarchoddedig a'r amcanion cydraddoldeb, ac mae hefyd yn cael ei daenu'n eang o safbwynt daearyddol.

Rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2015, cwblhawyd ymgynghoriad ynghylch y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-2020. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio barn am fframwaith cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant yn y dyfodol, ar ôl mis Mawrth 2017. Roedd y pwyntiau pwysig a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad o blaid y canlynol:

- sicrhau sylw i bob amcan cydraddoldeb;
- sicrhau sylw i bob nodwedd warchoddedig;
- darparu cyllid craidd a chyllid ar gyfer prosiectau;
- ariannu prosiectau penodol mewn ardaloedd sy'n flaenoriaeth;
- annog gwaith partneriaeth;
- rhannu'r arian sydd ar gael ymhlith sawl pot ariannu, gan gynnwys pot o arian ar gyfer grantiau bach.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Astudiaeth Achos

leuentid Cymru – Prosiect Traws*Newid Cymru

Mae'r Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn darparu arian ar gyfer prosiect Traws*Newid Cymru leuentid Cymru. Arweinir y prosiect gan Grŵp Llywio o bobl ifanc drawsrywiol ac mae'n cynnig gofod diogel iddynt gyfarfod, magu hyder a meithrin sgiliau newydd.

Mae Traws*Newid Cymru wedi datblygu, treialu a lansio pecyn sy'n cynnwys canllawiau, gwybodaeth ac adnoddau. Lanswyd y pecyn yng Nghynhadledd Genedlaethol Traws*Newid Cymru ym mis Tachwedd 2015 ac mae wedi'i ledaenu i sefydliadau sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Maent hefyd wedi cyhoeddi Siarter Traws*Newid sydd wedi'i chreu'n unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd yn sefydlu nifer o hawliau sydd gan bobl ifanc drawsrywiol a'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl gan sefydliadau i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu gwireddu. Lanswyd y Siarter ym mis Rhagfyr 2015 mewn digwyddiad a oedd yn targedu uwch benderfynwyr.

Mae'r cyllid hefyd wedi caniatáu i'r Grŵp Llywio ddatblygu 'Humanequin', sef prosiect sy'n cyfuno theatr a ffilm i gryfhau'r ymwybyddiaeth o'r heriau y mae pobl ifanc drawsrywiol yng Nghymru yn eu hwynebu. Cafodd y prosiect sylw ar y cyfryngau gan y BBC ac S4C.

Sêr Cymru II

Mae'r Is-adran Gwyddoniaeth wedi gweithio gyda phartneriaid ym maes addysg uwch i gynllunio cyfres o gynlluniau cymrodoriaeth, sydd gyda'i gilydd yn cael eu galw'n Sêr Cymru II, er mwyn denu a chadw ymchwilwyr dawnus yng Nghymru. Mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ddefnyddio'r cynllun i hybu cyfle cyfartal, yn enwedig i fenywod sy'n ymchwilwyr gan eu bod yn amlwg yn brin mewn llawer o feysydd ymchwil gwyddonol.

Elfen allweddol o raglen Sêr Cymru II yw Ailafael yn y llinyn Doniau Ymchwil, gyda'r nod o roi cymorth i oddeutu 12 o ymchwilwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl hoe yn eu gyrfa. Y bwriad yw mynd i'r afael â nifer yr ymchwilwyr, llawer ohonynt yn fenywod, sy'n ymadael â byd gwyddoniaeth ar ôl cael plant neu ar ôl ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu eraill, ac sydd wedyn yn ei chael hi'n anodd ailafael yn eu gyrfa weithredol ym maes ymchwil.

Drwy gydweithio â phartneriaid, gwnaeth yr Is-adran Ymchwil gais i WEFO am Gronfeydd Strwythurol i gefnogi'r cynllun Ailafael mewn Doniau Ymchwil a llinynnau eraill rhaglen gymrodoriaeth Sêr Cymru II. Mae Sêr Cymru II bellach wedi llwyddo i sicrhau rhyw £23 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gan gyfrannu at raglen sydd â chyfanswm gwerth o £39 miliwn (gydag arian cyfatebol).

Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cyntaf

Yn 2015-2016, daeth Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cyntaf ar gael am y tro cyntaf i ddysgwyr 3-4 oed yn lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen. Fe'i darparwyd gan gydnabod canlyniadau pendant gwaith ymchwil sy'n dweud mai ymyraethau yn y blynyddoedd cynnar yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus o sicrhau bod plentyn yn datblygu ac yn cyrraedd ei botensial llawn ac yn chwalu cylch tangyflawni yn yr ysgol ac fel oedolyn. Mae Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn gefn i nod 'Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru' sef sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn cael yr un cyfle i elwa o addysg.

Mae disgyblion sy'n byw yng nghymunedau mwyaf di-fraint Cymru'n fwy tebygol o fod yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim. Mae cynnydd sylweddol wedi bod o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim a'r rheini nad ydynt. Caeodd y bwlch yn ystod pob cyfnod allweddol yn 2015. Roedd y gwerthusiad diweddaraf o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 yn dangos bod athrawon yn meddwl bod y Grant yn gwneud gwahaniaeth o ddifri ac yn awgrymu y gellir priodoli'r gwella cyson a welwyd o ran presenoldeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf i'r grant.

Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Oherwydd y prinder safleoedd awdurdodedig i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, ni all aelodau'r cymunedau hyn gael gafael ar fannau cyfreithiol a diwylliannol addas i fyw. Yn 2014, pasiwyd Deddf Tai (Cymru) sy'n cynnwys dyletswydd ar Awdurdodau Lleol Cymru i sicrhau bod digon o leoedd yn cael eu darparu ar gyfer yr angen sydd heb ei ddiwallu yn eu hardal.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu digon o gyllid i helpu i wireddu'r ymrwymiad hwn. Mae Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn helpu i adnewyddu safleoedd wedi'u hawdurdodi sydd ar gael eisoes neu i ddatblygu safleoedd newydd er mwyn sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn gallu arfer eu hawl i gadw'u diwylliant ac elwa o safon byw dda ar y safleoedd hynny.

Yn ystod 2015-2016, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n mwy na dyblu ei chyllideb sylfaenol ar gyfer y grant hwn er mwyn diwallu'r angen a fynegwyd gan awdurdodau lleol. Buddsoddwyd cyfanswm o oddeutu £3.7m i greu 25 o leiniau newydd ac i adnewyddu llawer o'r lleiniau a oedd ar gael eisoes. Yn sgil y buddsoddi hwn mewn safleoedd, mae 25 o deuluoedd bellach yn gallu cael llety diogel, sefydlog a phriodol na fyddai ar gael iddynt fel arall. Cyn hyn, roedd y teuluoedd hyn yn byw mewn gwersylloedd answyddogol neu mewn amgylchiadau gorlawn. Bydd symud i leiniau sydd wedi'u hawdurdodi'n lleihau'n sylweddol y potensial ar gyfer afiechyd, anafiadau yn sgil damweiniau, a thensiwn cymdeithasol yn sgil codi gwersylloedd answyddogol. At hynny, mae'r lleiniau newydd wedi golygu bod llai o bobl yn ddigartref ac wedi hybu cynhwysiant plant mewn ysgolion.

Mae'r buddsoddi hefyd wedi golygu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi awdurdodi ei safle cyntaf i Sipsiwn a Theithwyr. Mae buddsoddiadau eraill wedi sicrhau bod safleoedd ledled Cymru wedi'u gwneud yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon o ran defnyddio adnoddau, a bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu'r ffyrdd ac i osod paneli solar a threfniadau casglu dŵr.

Ymgysylltu

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Noda Rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011:

- (1) Cyfeirir at y darpariaethau ym mharagraff (2) yn y Rheoliadau hyn fel “y darpariaethau ymgysylltu”.
- (2) Pan fo unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu wrth gyflawni unrhyw weithgaredd, mae cydymffurfio â'r darpariaethau hynny'n golygu bod yr awdurdod wrth gyflawni'r gweithgaredd hwnnw:
 - a) yn gorfod cynnwys unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn credu
 - i. eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig; a
 - ii. bod ganddynt fuddiant yn y modd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau;
 - b) yn cael cynnwys unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn briodol;
 - c) yn cael ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn briodol.

Rhaid i'r gwaith ymgysylltu hwn ddigwydd mewn perthynas â'r canlynol:

- Pennu amcanion cydraddoldeb.
- Paratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Nodi sut y gall gwaith a gweithgareddau awdurdod gyfrannu at y broses o gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Asesu effaith debygol unrhyw bolisiau neu arferion a gaiff eu cynnig neu eu hadolygu ar grwpiau gwarchoddedig.

Mae Dyletswyddau Penodol Cymru'n dweud ei bod yn rhaid i gyrrff y sector cyhoeddus gynnwys pobl sydd yn eu barn hwy'n cynrychioli un neu ragor o'r grwpiau gwarchoddedig ac y mae'r ffordd y mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithio arnynt. Mae'r ddyletswydd hon i ymgysylltu'n sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cael cymorth a chynghor arbenigol i ddeall y materion sy'n bwysig i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu. Wedyn, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i wireddu cydamcanion ac i wneud gwell penderfyniadau, er enghraifft o ran datblygu polisiau a gwasanaethau ac wrth osod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Drwy gydol y flwyddyn, mae Gweinidogion wedi ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig mewn lluo o ddigwyddiadau a chyfarfodydd.

Y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn cynnwys pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl sy'n rhan o'r gwaith o wneud cynnydd ym maes cydraddoldeb i bobl anabl, ac sy'n perthyn i wahanol feysydd arbenigedd. Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i randdeiliaid gynghori Llywodraeth Cymru ar y materion allweddol sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru ac i ledaenu arfer gorau o ran ymdrin â'r materion hynny.

Bydd y Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a rhai o'r pynciau a drafodwyd yn 2015-2016 oedd mynediad at y Celfyddydau, argaeledd gwasanaethau Iechyd Meddwl, rhwystrau ym maes cyflogaeth i bobl sydd â nam ar y synhwyrau, a goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau'r Fforwm fynegi eu barn am bolisiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru, ac mae'n aml yn arwain at ragor o ymgysylltu â llunwyr polisiau, er enghraifft ynghylch materion sy'n ymwneud â rhaglenni mynediad at gyflogaeth. Mae gan y Fforwm rôl hefyd yn tynnu sylw at y pethau sy'n rhwystro camu ymlaen â'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol i bobl anabl. Fframwaith yw hwn sy'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud ar lefel strategol i hybu cymdeithas gynhwysol sy'n galluogi pobl.

Y Fforwm Cymunedau Ffydd

Mae'r Fforwm Cymunedau Ffydd yn cynnwys arweinwyr cymunedau ffydd sy'n ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynglŷn â materion polisi a strategaeth. Y Prif Weinidog yw Cadeirydd y Fforwm sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Fforwm Cymunedau Ffydd yn hwyluso deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r prif gymunedau ffydd ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru.

Rhai o'r materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn ystod 2015-2016 oedd y Polisi Newid yn yr Hinsawdd a'r newidiadau i'r ffordd y mae ysgolion yn darparu addysg grefyddol yng Nghymru, gan fwrw ymlaen â'r weledigaeth a bennwyd yn adroddiad Donaldson. Felly, mae aelodau'r Fforwm bellach yn aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Diwygio'r Cwricwlwm (Y Grŵp). Mae'r Grŵp yn chwarae rhan bwysig: drwy gynnig her allanol, craffu a chynghori; ymgysylltu'n gadarnhaol â Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni i gynghori ynghylch ffyrdd o weithio a dulliau o gynllunio, datblygu a gwireddu'r cwricwlwm newydd.

Fforwm Hil Cymru

Sefydlwyd Fforwm Hil Cymru i helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y materion a'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu cymunedau Pobl Dduon a Lleiarioedd Ethnig ac i alluogi Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â hwy'n barhaus. Mae aelodau'r Fforwm yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y prif sefydliadau hil a'r cynghorau cydraddoldeb ledled Cymru. Bydd y Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Yn 2015-2016, cadeirydd y Fforwm oedd y Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd. Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd Fforwm Hil Cymru i gynnal ei gyfarfodydd ar sail themâu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt: mynd i'r afael â hiliaeth a lleihau troseddau casineb, a materion sy'n ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

Aelodau Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yw nifer o gynrychiolwyr allanol o blith cyrff cydraddoldeb y trydydd sector a'r sector gwirfoddol. Rôl y grŵp hwn yw cynnig cyngor i'r Gweinidogion a rhannu arbenigedd a'r arferion gorau ym maes cydraddoldeb a fydd yn ei dro'n helpu i wella'n barhaus yr Aseidiadau Effaith ar y Gyllideb Drafft.

Un o'r prif bethau y mae trafodaethau'r grŵp wedi canolbwyntio arnynt yw deall proses Cyllideb Llywodraeth Cymru yn yr amgylchedd ariannol presennol a sut mae hyn yn cyfyngu ar ein hystyriaethau ynghylch cydraddoldeb. Mae'r trafodaethau wedi canolbwyntio'n gryf ar adeiladu sail dystiolaeth gadarn a thrylwyr ac ar ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, er mwyn gallu nodi a deall natur yr ystyriaethau sylfaenol ynghylch cydraddoldeb.

Drwy gyfrwng y cyfarfodydd, mae'r Grŵp wedi cael cyfle i edrych ar feysydd polisi a themâu penodol, er enghraifft, mae wedi ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb a gaiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, goblygiadau'r diwygiadau lles, y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Tai a Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen.

Astudiaethau Achos Ymgysylltu

(i) Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Creodd y Ddeddf system "cydsyniad tybiedig" ar gyfer rhoi organau yng Nghymru. Ni ddaeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym tan 1 Rhagfyr 2015 er mwyn caniatáu cyfnod o ddwy flynedd i roi gwybodaeth lawn i'r cyhoedd am y newidiadau a oedd ar y gweill ac i gryfhau'r ymwybyddiaeth o drawsblannu'n gyffredinol.

Ymgysylltwyd yn helaeth â phobl wrth roi'r Ddeddf ar waith, gan gynnwys ymgysylltu'n benodol â chymunedau Pobl Dduon, lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd yng Nghymru. Comisiynwyd asiantaeth farchnata arbenigol, Cognition, i wneud y gwaith hwn. Yn 2015, ymgysylltodd yr asiantaeth hon â dros 3,000 o bobl, arweinwyr yn y gymuned yn benodol. Buont hefyd yn bresennol mewn oddeutu 45 o ddigwyddiadau dros ardal eang. Trefnodd Cognition hefyd i ddsbarthu taflenni mewn gwahanol ieithoedd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn eu hiaith gyntaf. Hefyd, cyhoeddwyd sawl fersiwn o'r taflenni er mwyn sicrhau eu bod ar gael i bawb, gan gynnwys yn iaith Arwyddion Prydain, iaith hawdd ei darllen, print mawr, sain a Braille. Dosbarthwyd y rhain i Fosgau, Temlau Sikh, canolfannau diwylliannol Tsieineaidd a Themlau Hindŵ.

Canlyniad yr ymgysylltu hwn oedd bod pobl yn gyffredinol, gan gynnwys cymunedau ffydd, a chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn deall y ddeddfwriaeth a'r drefn rhoi organau'n well. Mae arweinwyr cymunedau wedi cael gwybodaeth dda am y ddeddfwriaeth newydd ac yn gallu cyngori eu cymunedau'n llawn am y dewisiadau sydd ar gael iddynt o dani.

(ii) Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Er mwyn sicrhau bod yr Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn drwyadl, sylweddolodd Llywodraeth Cymru fod angen ymgysylltu'n well â Sipsiwn a Theithwyr. Yn gefn i hyn, roedd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r ddyletswydd ddeddfwriaethol i asesu anghenion yn cynnwys sawl cyfeiriad pwysig at gyfwrdd â Sipsiwn a Theithwyr yn uniongyrchol. Serch hynny, roedd yn bwysig hefyd annog aelodau o'r gymuned i gymryd rhan.

Nod y prosiect oedd datblygu ffilm fer i roi gwybodaeth i Sipsiwn a Theithwyr a'u hannog i gymryd rhan yn y broses Asesu Llety. Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r cyhoeddiad arbenigol i'r gymuned, Travellers' Times i gynhyrchu ffilm i'w chyflwyno i Sipsiwn a Theithwyr. Dewiswyd ffilm yn gyfrwng priodol oherwydd lefelau llythrennedd isel y gymuned a'r awydd i ddangos ar ffurf weledol beth yw manteision cymryd rhan yn yr Asesiad.

Yn y ffilm cyfwelwyd ag aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr o bob cwr o Gymru i esbonio pwrpas yr Asesiad yn eu geiriau eu hunain. Roedd y ffilm yn annog Sipsiwn a Theithwyr i gymryd rhan ac fe ddefnyddiwyd y teitl "Sites: Your Say, Your Future" i bwysleisio'r ffaith na fyddai safleoedd ychwanegol yn cael eu creu oni fyddai pobl yn cymryd rhan.

Yn olaf, roedd angen cyflwyno'r ffilm i'r gymuned. Llwyddwyd i wneud hyn drwy annog cyfwelwyr i'w dangos i deuluoedd cyn gwneud yr arolwg, a'i dangos hefyd mewn digwyddiadau cymunedol, arlein, a'i dosbarthu drwy'r cyrff sy'n cefnogi'r gymuned. Wrth i fwy o bobl gymryd rhan yn yr Asesiadau Llety, dylai hyn olygu bod modd rhagweld yr angen yn fwy cywir, ac fe ddylai hynny sicrhau bod pob Sipsi a Theithiwr sydd ag angen llain yn gallu cael gafael ar un.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, fel gyda chyrff cyhoeddus datganoledig eraill y mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn berthnasol iddynt, gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â grwpiau gwarchoddedig, ar draws ei pholisïau a'i harferion arfaethedig, y rheini y mae wedi penderfynu eu hadolygu, a'r newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Rheoliadau 8(1)(a) a 8(1)(b)

Rhaid i awdurdod rhestredig wneud trefniadau priodol ar gyfer asesu:

- effaith debygol polisiau ac arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol;
- asesu effaith unrhyw:
 - bolisi neu arfer y mae'r awdurdod wedi penderfynu adolygu
 - adolygu bod yr awdurdod yn bwriadu gwneud polisi neu arfer,

ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol

Mae rheoliad 8 (3) yn darparu bod yr awdurdod, wrth gynnal asesiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) (a) neu (b):

- yn cydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu; ac
- yn rhoi sylw dyledus i'r wybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant.

Nid yw'r ddyletswydd hon i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys polisiau ac arferion sy'n bodoli eisoes nad yw'r awdurdod rhestredig wedi penderfynu eu hadolygu, ond rhaid parhau i fonitro'r polisiau hynny sy'n bodoli eisoes.

Rheoliad 8(1)(c)

Rhaid i'r awdurdod rhestredig hefyd fonitro effaith polisiau ac arferion ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae asesu effaith polisiâu ac arferion ar grwpiau gwarchoddedig yn un o'r ffyrdd allweddol y gall awdurdodau cyhoeddus ddangos eu bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i'r mater. Mae ein trefniadau ar gyfer asesu effaith hefyd yn rhan allweddol o'r broses o gyflawni ein dyletswydd o dan adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae dull Llywodraeth Cymru o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn sicrhau bod ein polisiâu a'n harferion yn diwallu anghenion pobl Cymru yn well. Mae'n sicrhau bod y gwaith a wnawn yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a chanlyniadau cynhwysol i holl ddinasyddion Cymru.

Gwella trwy Asesu

Thema glir sy'n dod i'r amlwg wrth gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws y sefydliad, o ran y Gyllideb ac o ran penderfyniadau polisi, yw'r diffyg tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer rhai nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys: grwpiau crefydd a ffydd, a grwpiau pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol. Yn ogystal ag amlinellu'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd, un o'r gofynion eraill sy'n gysylltiedig â chwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw y dylid cydnabod a nodi ble y gallai fod diffyg tystiolaeth. Trwy'r duedd hon sy'n dod i'r amlwg o ran bylchau mewn tystiolaeth ar gyfer y nodweddion hyn, mae mwy o adrannau yn ceisio cynnwys gwaith casglu tystiolaeth o fewn eu gwaith gwerthuso a monitro polisiâu sy'n canolbwyntio ar y grwpiau gwarchoddedig.

Monitro Effaith ein Polisiâu a'n Harferion

Fel rhan o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, rhaid i gyrff rhestredig hefyd sicrhau eu bod yn parhau i fonitro effaith eu polisiâu ar ôl cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesiadau byw a pharhaus sy'n para am oes y penderfyniad neu'r polisi ac, mewn rhai achosion, y tu hwnt i hynny.

O fewn Llywodraeth Cymru, ar ôl cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a phennir dyddiad adolygu. Ar y dyddiad adolygu hwn, rhaid ailystyried a gwerthuso'r asesiad gwreiddiol o'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig. Lle nodir effeithiau newydd, neu lle casglwyd tystiolaeth sy'n cefnogi ein hasesiad gwreiddiol o'r effaith, caiff y rhain eu cynnwys yn yr asesiad.

Asesiadau o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb

Llywiwyd ein dull o Asesu Effaith y Gyllideb gan argymhellion amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys pwyllgorau'r Cynulliad, Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ddogfen â mwy o ffocws iddi, sy'n edrych yn strategol gyffredinol ar effeithiau newidiadau pwysig yn y gyllideb. Mae mwy o bwyslais ar asesu effeithiau gwahaniaethol cynigion ar y gwahanol grwpiau yn ein cymdeithas, lle bydd y rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol. Prif fantais y dull integredig hwn yw bod effeithiau penderfyniadau ynglŷn â gwario ar yr holl grwpiau gwarchoddedig yn cael eu hystyried, a bod gwneud hynny mewn ffordd gynhwysol wedi golygu ein bod wedi gallu datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r cydberthnasau rhwng y meysydd pwysig hyn.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ystyried effaith ein penderfyniadau ynglŷn â gwariant ar y naw nodwedd warchoddedig ynghyd â'r effeithiau ar y Gymraeg, hawliau plant, trechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol wedi'u cysoni o dan ambarél datblygu cynaliadwy a llesiant. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiau diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i hymagwedd at gyni.

Caffael

Bydd cyrff y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n gwario tua £5.5 biliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan gyflenwyr. Mae'n bwysig bod pob punt sy'n cael ei gwario'n cael ei gwario'n ddoeth, gan sicrhau'r gwerth gorau i bobl Cymru.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Rheoliad 18

- (1) Pan fo awdurdod sy'n awdurdod contractio yn bwriadu gwneud cytundeb perthnasol ar sail y cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd, rhaid iddo roi sylw dyladwy i'r cwestiwn a ddylai'r meini prawf ynglŷn â dyfarnu gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i'r modd y mae'n cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- (2) Pan fo awdurdod sy'n awdurdod contractio yn bwriadu pennu amodau ynglŷn â chyflawni cytundeb perthnasol, rhaid iddo roi sylw dyladwy i'r cwestiwn a ddylai'r amodau gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i sut mae'n cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Ein Polisi Caffael

Trwy gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau a gaiff eu caffael gennym yn addas ar gyfer y diben ac felly sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein dinasyddion a'n cymunedau amrywiol.

Fel rhan o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol statudol Cymru, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru:

- ystyried pa un a ddylai'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus
- ystyried a fyddai'n briodol gosod amodau mewn perthynas â pherfformiad y contract er mwyn helpu i gyflawni tri nod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Cyflawni'r Ddyletswydd Caffael o fewn Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

Mae Polisi Caffael Cymru'n cynnwys deg prif egwyddor y dylai holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru gadw atynt wrth gaffael. Mae'r prif gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi mabwysiadu hyn i raddau helaeth a phob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi cadarnhau eu bod wedi gwneud hyn ac yn monitro'r hyn sy'n digwydd. Am y tro cyntaf yng Nghymru, darperir diffiniad ffurfiol o Werth am Arian, sef: "y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi gan leihau niwed i'r amgylchedd."

Mae nifer o sbardunau pwysig wedi bwrw gwreiddiau yn y datganiad polisi sy'n dylanwadu ar gyflawni ystyriaethau cydraddoldeb gan gynnwys:

- sicrhau bod Budd i'r Gymuned yn cael eu cynnwys mewn contractau;
- symleiddio'r broses gaffael a gostwng rhwystrau i gyflenwyr;
- hysbysebu cyfleoedd ar gyfer contractau drwy wefan GwerthwchiCymru;
- cwblhau'r pecyn Asesiad Risg Cynaliadwyedd.

Prif-ffrydio Cydraddoldeb ym maes Caffael a sicrhau ei fod yn Bwrw Gwreiddiau – Canlyniadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod ar flaen y gad yn cyflawni polisiau caffael ar gyfer sector cyhoeddus Cymru sy'n sbarduno cydraddoldeb ers nifer o flynyddoedd. Dyma rai o'r canlyniadau:

Budd i'r Gymuned

Ers mis Mawrth 2016, mae canlyniadau'r 201 prosiect cyntaf yn y sector cyhoeddus, sy'n werth £1.1biliwn yn dangos bod 83% wedi'i ail-fuddsoddi yng Nghymru, £232m yn uniongyrchol ar gyflogau i ddinasyddion Cymru, a rhyw £706m gyda busnesau â'u canolfannau yng Nghymru, 78% o'r rheini'n fentrau bach a chanolig yng Nghymru. Rhoddwyd cymorth i ryw 1595 o bobl ddi-fraint gael gwaith, ac i fanteisio ar dros 35,335 o wythnosau o hyfforddiant a ddarparwyd.

Mae budd i'r gymuned yn cael ei gynnwys yn opsiwn ym mhroses grantiau Llywodraeth Cymru fel un o amodau safonol cyllid grant, ac fe ddefnyddir hyn mewn prosiectau allweddol megis Ysgolion yr 21g a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd wedi ymrwymo i gynnwys budd i'r gymuned yn y contractau sydd o fewn ei gwmpas.

Y Sail Dystiolaeth

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Rheoliad 18

Noda Rheoliad 7(1) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) Cymru 2011:

Rhaid i awdurdod wneud unrhyw drefniadau y mae'n credu eu bod yn briodol i sicrhau ei fod, o dro i dro:

- yn nodi'r wybodaeth berthnasol y mae'n ei dal;
- yn nodi ac yn casglu gwybodaeth berthnasol nad yw'n ei dal; ac
- yn cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol y mae'n ei dal ac y mae'n credu y byddai'n briodol ei chyhoeddi.

Rydym yn ymwybodol bod y dystiolaeth ynghylch nodweddion gwarchoddedig penodol yn gyfyngedig iawn, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu effaith bosibl ein polisiau, ein strategaethau a'n penderfyniadau gwariant ar y grwpiau gwarchoddedig hynny yn gywir. Er gwaethaf y bylchau hyn, rydym yn ceisio gwneud cynnydd o ran cryfhau ein sail dystiolaeth. Mae ein gwaith i gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb fel rhan o'r camau gweithredu o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016, a'n gwaith parhaus i asesu effaith ein polisiau a'n strategaethau ar gydraddoldeb ynghyd â'r gwaith ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig yn amcanu at wneud y defnydd gorau o'r sail dystiolaeth bresennol. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru wedi llunio crynodeb o'r dystiolaeth yn ôl nodweddion gwarchoddedig: www.wales.gov.uk/topics/people-andcommunities/equality-diversity/impactassessments/budget2014iip/?lang=cy

Yn ystod 2015-2016 cyhoeddwyd diweddariadau hefyd ar gyfer yr allbynnau ystadegol perthnasol canlynol:

- Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, 2015
- Absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion
- Canlyniadau cyfrifiadau ysgolion
- Tablau StatsCymru ar gyfer Addysg Bellach gan gynnwys Oedran, Rhyw ac Anabledd
- Tablau StatsCymru sy'n cynnwys data am linyddau cydraddoldeb (e.e. Data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol)
- Asesiadau a gwasanaethau cymdeithasol i oedolion
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Darparu tai fforddiadwy
- Arolwg lechyd Cymru
- Ystadegau lechyd Cymru

- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant
- Tablau StatsCymru am Ddigartrefedd
- Mynediad at Feddyg Teulu
- Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru
- Twf Swyddi Cymru
- Camau Canlyniadau Dysgu Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu yn y Gymuned i Oedolion: 2014/15
- Ystadegau Addysg Uwch

Rydym yn dal i gasglu data yn ôl nodweddion gwarchoddedig lle bydd hynny'n ymarferol, er enghraifft casglu manylion am oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd mewn arolygon aelwydydd ac wrth gasglu data gweinyddol.

Serch hynny, mae yna bethau sy'n ein rhwystro rhag casglu gwybodaeth am gydraddoldeb sy'n cyfyngu ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft:

- mae arolygon sampl ar raddfa fawr o safon uchel yn gostus, ac mae'r is-grŵp yn y boblogaeth yn aml mor fach nes y byddai'n rhaid i'r sampl fod yn fawr iawn i gasglu gwybodaeth gadarn;
- gall fod yn anodd gosod cwestiynau sydd wedi'u profi'n dda, neu ffurfio cwestiynau newydd sy'n cynhyrchu canlyniadau cywir: er enghraifft, efallai na fydd ymatebwyr yn deall yr hyn a ofynnir neu efallai na fyddant yn dymuno darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani;
- gall gofyn am rai pynciau sensitif dramgwyddo yn erbyn ymatebwyr. Gallai hyn arwain at gwynion, sylw negyddol yn y cyfryngau, a hyd yn oed at gyfraddau ymateb is.

Ein Rhwymedigaethau Rhyngwladol

Yn ystod 2015-2016, parhaodd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'i hymagwedd nodedig at hawliau dynol drwy gyfrwng ei hymrwymadau adrodd rhyngwladol. Parhaodd Llywodraeth Cymru i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n llawn yn y gwahanol adroddiadau ac archwiliadau yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Gorffennaf 2015, archwiliwyd y Deyrnas Unedig ar sail yr adroddiad cyfnodol yr oedd wedi'i gyflwyno i'r Cenhedloedd Unedig yn 2013 am y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol. Cynrychiolwyd Llywodraeth Cymru ymhlith dirprwyaeth y Deyrnas Unedig a deithiodd i Genefa ar gyfer yr ymchwiliad llafar i'r adroddiad.

Ym mis Tachwedd 2015, ymwelodd y Comisiwn Ewropeaidd yn erbyn Hiliaeth a Diffyg Goddefgarwch â'r Deyrnas Unedig i gasglu tystiolaeth ar gyfer ei bumed adroddiad. Corff gwrth-hiliaeth Cyngor Ewrop yw'r Comisiwn hwn a nod yr adroddiad oedd cofnodi perfformiad y Deyrnas Unedig o ran trechu hiliaeth, gwahaniaethu ar sail hil a mathau eraill o ddiffyg goddefgarwch, gan gynnig sylwadau am y pynciau hyn. Cymerodd Llywodraeth Cymru ran mewn nifer o gyfarfodydd bwrdd crwn gyda dirprwyaeth y Comisiwn, gan ateb cwestiynau am amrywiaeth o feysydd. Ar ôl yr ymweliad, cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad gan roi rhestr o argymhellion i'r Deyrnas Unedig wedi'u seilio ar ei ganfyddiadau. Roedd yr adroddiad yn croesawu cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru'n asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

Ym mis Mawrth 2016, ymwelodd Pwyllgor Cynghori Cyngor Ewrop ar y Confensiwn Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Lleiafrifoedd Cenedlaethol â'r Deyrnas Unedig fel rhan o'i waith monitro ar weithredu'r Confensiwn. Mae'r Confensiwn Fframwaith yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys gwahaniaethu annheg, addysg, cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chadw a datblygu diwylliant, crefydd ac iaith. Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn dod o dan y Confensiwn oherwydd, er nad yw Cymry'n lleiafrif yng Nghymru, mae Cymry a siaradwyr y Gymraeg yn lleiafrif o fewn y Deyrnas Unedig. Cymerodd Llywodraeth Cymru ran mewn cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn gyda'r Pwyllgor Cynghori. Disgwylir iddo gyhoeddi adroddiad am ei ganfyddiadau ddechrau 2017.

Pennod 3 – Y Cynnydd yn Erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb

Mae'r bennod hon yn cyflawni rheoliad 16(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni adrodd am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Adroddiad am gyfnod sydd wedi mynd heibio yw hwn ac mae'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2015-2016.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd. Ffurfiwyd camau gweithredu manwl o fewn yr amcanion cyffredinol, a'r rheini wedi'u seilio ar waith ar draws portffolios y Llywodraeth. Amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru 2012-2016 oedd:

Amcan Cydraddoldeb 1: Atgyfnerthu gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth er mwyn helpu unigolion â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg.

Amcan Cydraddoldeb 2: Gweithio gyda phartneriaid i nodi achosion gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

Amcan Cydraddoldeb 3: Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Amcan Cydraddoldeb 4: Lleihau nifer yr achosion o bob math o drais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref, trais er 'anrhydedd', troseddau casineb, bwlio a cham-drin pobl hŷn.

Amcan Cydraddoldeb 5: Mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd.

Amcan Cydraddoldeb 6: Sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Amcan Cydraddoldeb 7: Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus.

Amcan Cydraddoldeb 8: Creu gweithle mwy cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff â nodweddion gwarchoddedig drwy wella gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i bob aelod o staff.

Dangosyddion – Cyffredinol

Yn gyffredinol, nid oes fawr o gynnydd wedi bod yn aml o ran nifer fawr o'r dangosyddion ac yn y manau hynny lle mae newidiadau wedi bod, mân newidiadau yw'r rhain yn aml. Mae hyn yn adlewyrchu natur dangosyddion lle bydd symud yn digwydd yn raddol a thros gyfnod hir. Felly, dylid ystyried y dangosyddion yn eu cyfanrwydd, er mwyn cael synnwyr cyffredinol o'r cyfeiriad.

Mae nifer o'r dangosyddion yn dod o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gan na chynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol yn 2015-16, nid oes data wedi'u diweddarau ar gael ar gyfer y dangosyddion hyn. Yn yr enghreifftiau hyn, rhoddir data'r flwyddyn flaenorol neu'r flwyddyn ddiweddaraf. Bydd yr Arolwg Cenedlaethol yn aildechrau yn 2016-2017 ac yn cynnwys ystod ehangach o bynciau.

Effeithiolrwydd Camau Llywodraeth Cymru i Gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Amcanion 2012-2016 ddiwedd 2016 ac mae hwnnw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r gwerthusiad yn ystyried i ba raddau y mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i Amcanion 2012-2016 wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswydd gyffredinol yn well sef rhoi sylw dyledus i dri nod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth roi ei swyddogaethau ar waith. Mae'r gwerthusiad hefyd yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae cynnydd mesuradwy wedi'i wneud ar yr amcanion, o fewn cyd-destun ehangach y ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau.

Amcan 1

Atgyfnerthu gwasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth er mwyn helpu unigolion â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg

Rhagarweiniad

Mae Llywodraeth Cymru'n helpu llawer o sefydliadau i roi cyngor annibynnol am ddim i bobl am eu hawliau ariannol, ac am faterion sy'n ymwneud â dyledion a thai a gwahaniaethu annheg. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymarferol ar lefel uchel i bobl fynd ar drywydd hawliadau a herio penderfyniadau.

Yn 2015-2016, bu'r gwasanaethau cynghori hyn yn helpu pobl i ysgwyddo rhagor o reolaeth ac i ymdrin ag ystod o sefyllfaoedd heriol. Roeddent hefyd yn cymryd camau ataliol, gan roi'r cyngor o safon i bobl yr oedd ei angen arnynt er mwyn gwella'u lles. Roedd yr amcan hwn yn rhan o ymdrechion ehangach Llywodraeth Cymru i drechu tlodi a diffyg cydraddoldeb ac allgáu ariannol a chymdeithasol yng Nghymru.

Ein Camau Gweithredu

Gwasanaethau Cynghori'r Rheng Flaen

Yn ystod 2015-2016, darparodd Llywodraeth Cymru oddeutu £2.2 miliwn i gefnogi gwasanaethau cynghori'r rheng flaen ar faterion a oedd yn gysylltiedig â budd-daliadau lles, dyledion, tai a gwahaniaethu annheg. Y cyrff a ariannwyd o dan y grant hwn yw Cyngor ar Bopeth Cymru, SNAP Cymru, Shelter Cymru, Gofal Canser Tenovus ac Age Cymru. Y dyraniadau ar gyfer 2015-2016 oedd:

- Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru – £1.3 miliwn i ddarparu gwasanaethau cynghori am dai, budd-daliadau lles a materion yn ymwneud â dyled.
- Cyngor ar Bopeth Cymru a SNAP Cymru – £390,000 ar gyfer cyngor arbenigol am wahaniaethu annheg, gan gynnwys cyngor am wahaniaethu ym maes addysg a darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o wahaniaethu i staff y rheng flaen.
- Gofal Canser Tenovus – £175,438 i ddarparu gwasanaethau cynghori am fudd-daliadau lles i gleifion sy'n dioddef o ganser a'u teuluoedd.
- Age Cymru – £321,621 i ddarparu gwasanaethau cynghori gwrthdlodi i bobl hŷn a'u gofalwyr.

Ym mis Mawrth 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru ar estyniad i'r cytundebau grantiau â Cyngor ar Bopeth Cymru, Age Cymru, a Gofal Canser Tenovus i ddarparu prosiect Gwasanaethau Cynghori'r Rheng Flaen yn 2016-2017. Mae gofyn i'r cyrff sy'n cael grant Gwasanaethau Cynghori'r Rheng Flaen adrodd i Lywodraeth Cymru am sut mae eu gwasanaethau'n cyflawni o'i gymharu â dibenion y grant a pha effaith mae'r gwasanaethau'n ei chael ar y grŵp o gleientiaid a dargedir. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddangos yn fwy clir yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaethau hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Cyngor Da: Byw'n Well

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £2.2 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r cynllun Cyngor Da: Byw'n Well. Canolfannau Cyngor ar Bopeth sy'n darparu'r prosiect ac mae'n helpu i gefnogi teuluoedd â phlant anabl a sicrhau eu bod yn cael yr incwm mwyaf posibl. Mae'n estyn allan at y rheini sy'n byw mewn ardaloedd di-fraint ac y mae tlodi'n debygol o effeithio ar eu hiechyd. Cyfanswm y budd-daliadau a enillwyd yn sgil cyngor am fudd-daliadau anabledd i blant oedd £3.5 miliwn yn 2015-2016. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd cyngor i 1,865 o gleientiaid am faterion yn ymwneud â budd-daliadau anabledd i blant.

Y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol gan gynnwys cyllidwyr, darparwyr cyngor, cyrff ambarél a phartneriaid eraill i drafod cynllunio a darparu gwasanaethau cynghori cenedlaethol a lleol er mwyn sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn gallu cael gafael ar wasanaethau cynghori a chymorth da a chywir. Mae'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol wedi cyfarfod bum gwaith hyd yn hyn. Mae ei waith wedi cynnwys mapio gwasanaethau gwybodaeth a chynghori gyda'r bwriad o gyhoeddi map rhyngweithiol arlein yn haf 2016, dadansoddi pa fath o gyngor sydd ei angen, cyfrannu at y fframwaith ansawdd, a datblygu strategaeth ddrafft ar gyfer gwasanaethau cynghori.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 1

Gwasanaethau cynghori'r rheng flaen

Ar ffurf cymorth y grant i wasanaethau cynghori'r rheng flaen, mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2015-2016 wedi cyfrannu at Gyngor ar Bopeth, Shelter Cymru, SNAP Cymru, Age Cymru a Tenovus yn:

- ymateb i dros 50,000 o geisiadau am wybodaeth a chyngor
- sicrhau dros £14 miliwn o enillion incwm i'r bobl a gynorthwywyd.

Cyngor Da, Bywydau Gwell

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, fe wnaeth cynllun Cyngor Da, Byw'n Well helpu mwy na 18,600 o bobl gan gadarnhau enillion mewn budd-daliadau ar sail flynyddol sy'n fwy na £20.7 miliwn.

Daw'r data hyn o wybodaeth reoli adrannol.

Amcan 2

Gweithio gyda phartneriaid i nodi achosion gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd ac anabledd

Rhagarweiniad

Mae'n hanfodol bod pawb yng Nghymru'n cael cyfle cyfartal i gyflawni ei botensial llawn. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n llesteirio datblygiad a rhagolygon unigolyn. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r cychwyn gorau posibl i bob plentyn mewn bywyd, rhoi addysg o safon i bawb, herio stereoteipio ar sail rhyw, ac annog pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig i fynd i ymgymryd â rolau lle nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol.

Ein Camau Gweithredu

1. Blynyddoedd Cynnar

Gofal plant

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gofal plant digonol i rieni sy'n gweithio neu'n cael eu hyfforddi. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw am ofal plant a'r cyflenwad sydd ar gael, ac i gyhoeddi cynllun cynnydd blynyddol.

Dadansoddwyd Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant blynyddol awdurdodau lleol ym mis Mehefin 2015. Datgelodd yr asesiad hwn mai ychydig o fylchau daearyddol oedd yn y ddarpariaeth ac eithrio yn yr ardaloedd mwy gwledig ymhell oddi wrth ddinasoedd ac ardaloedd teithio i'r gwaith, lle y gall y niferoedd bach olygu nad yw'n hyfyw cynnal gofal plant oherwydd y gymhareb cost ac elw. Mae bylchau'n fwy tebygol o gael eu gweld yn y ddarpariaeth gofleidiol i blant oedran ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau, er bod gwella cyffredinol wedi bod o ran darpariaeth o safon dda yn y lleoliad iawn ac yn yr iaith iawn ledled Cymru. Dangosodd yr arolwg mai un o'r rhwystrau mwyaf o hyd rhag sicrhau gofal plant yw'r gallu i'w fforddio ac mae'n pwysleisio'r ffaith bod ffioedd gofal plant wedi codi er bod cyflogau wedi aros yn gymharol sefydlog. Efallai mai'r rheswm dros y llyfdd gweigion sydd i'w gweld mewn rhai ardaloedd felly yw bod rhieni'n defnyddio gofal plant anffurfiol er mwyn osgoi talu costau gofal plant uchel.

Cafodd ehangu Dechrau'n Deg effaith gadarnhaol ar ddarparu gofal plant am ddim mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf di-fraint yng Nghymru. Hefyd, lledaenwyd y rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac a dreialwyd i ddechrau yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, drwy Gymru ym mis Gorffennaf 2015.

Darperir y Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol ar gyfer awdurdodau lleol i'w helpu i fynd i'r afael â galw sydd heb ei ddiwallu yn eu hardaloedd. Mae'r grant, sef £2.3 miliwn, wedi cael ei ddefnyddio i gynnig gofal plant y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, i blant o deuluoedd isel eu hincwm, ac i blant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae grantiau cychwyn a

chynnal wedi'u darparu drwy gyfrwng y grant hwn hefyd i hybu, annog a chynnal darpariaeth gofal plant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n targedu'r blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf di-fraint Cymru. Nod y rhaglen yw gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd y plant hyn ac mae'n dal yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd:

- gofal plant o safon am ddim
- cymorth i rieni
- cymorth dwys gan ymwelydd iechyd
- cymorth ar gyfer datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Elwodd 33,252 o blant ar wasanaethau Dechrau'n Deg yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Rhagfyr 2015. Hyd yn hyn, mae cyfanswm o £32.2 miliwn o gyllid cyfalaf wedi'i ddyfarnu dros gyfnod o bedair blynedd (2012-2016) i 263 o brosiectau ledled Cymru. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu lleoliadau gofal plant newydd, i greu swyddfeydd i Dimau Amlasiantaeth Dechrau'n Deg, a lleoliadau ar gyfer cyrsiau rhianta a sesiynau datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddatblygu'r lleoliadau gofal plant gan fod angen mwy na 4,000 o leoedd cyfwerth ag amser llawn i wireddu'r ymrwymiad i ddarparu lle gofal plant rhan-amser i bob plentyn dwy i dair oed sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg a hynny mewn lleoliad o safon uchel. Mae'r rhaglen gyfalaf hefyd yn ariannu gwaith i sicrhau bod lleoliadau gofal plant yn hwylus i bobl. Defnyddiwyd yr arian i ddatblygu ystafelloedd a gardd synhwyrâu i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac i osod cyfarpar ynddynt.

Teuluoedd yn Gyntaf

Drwy fuddsoddi'n sylweddol yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, rydym yn parhau i ddatblygu cymorth effeithiol, amlasiantaeth i deuluoedd er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli i'r teuluoedd hynny sy'n dod o gefndir cymdeithasol-economaidd is neu'r teuluoedd y mae anabled yn effeithio arnynt. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais clir ar ymyrraeth gynnar ac atal, ac ar ddwyn sefydliadau ynghyd i gydweithio â'r teulu i gyd er mwyn helpu i atal problemau rhag gwaethygu a chreu argyfwng.

Yn ystod 2015-2016 cafodd Teuluoedd yn Gyntaf gyllid o £43.6 miliwn; mae cyfanswm o dros £170 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y rhaglen hyd yn hyn. Cyhoeddwyd Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 3 Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Medi 2015 a gwelwyd bod y cysyniad o ddarparu cymorth wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar y teulu bellach wedi bwrw gwreiddiau cadarn wrth ddarparu gwasanaethau. Mae asesu a theilwra cymorth i deuluoedd drwy ganolbwyntio ar y teulu'n gwneud gwahaniaeth go iawn i ganlyniadau teuluoedd ac mae cyfleoedd bywyd yn gwella o'r herwydd.

Rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Rhagfyr 2015, roedd oddeutu 200 o brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf ar waith yn gyson ar unrhyw un adeg. Cydnabyddir yn helaeth fod y prosiectau strategol sy'n cael eu comisiynu drwy gyfrwng Teuluoedd yn Gyntaf yn adlewyrchu anghenion ardaloedd lleol a'u bod yn darparu gwasanaethau o safon uchel. Er bod maint a chwmpas y prosiectau'n amrywio

o'r naill awdurdod lleol i'r llal, mae themâu craidd y cymorth yn cael eu darparu drwy Gymru a'r rheini'n cynnwys cymorth i rieni a sgiliau rhianta, ymgysylltu â phobl ifanc a darpariaeth chwarae. Dros yr un cyfnod defnyddiwyd y prosiectau hyn 663,316 o weithiau gan unigolion. Er y gallai'r ffigur hwn gynnwys unigolion sy'n defnyddio mwy nag un prosiect ac/neu sy'n defnyddio prosiect fwy nag unwaith, mae'n dangos bod Teuluoedd yn Gyntaf yn cyrraedd nifer sylweddol drwy Gymru.

2. Addysg

Y Grant Gwella Addysg

Mae'r Grant Gwella Addysg, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015, yn darparu cymorth ariannol i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i wella canlyniadau addysgol i bob dysgwr. Mae'r grant yn gefn i bedwar amcan strategol Cymwys am Oes, y weledigaeth hirdymor ar gyfer addysg dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru. Effaith y grant newydd yw gwella canlyniadau addysgol i bob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau dysgwyr drwy wneud y canlynol:

- gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro dysgwyr rhag dysgu a gwella cynhwysiant;
- gwella arweinyddiaeth mewn lleoliadau addysgol;
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac ymgysylltu gan ddysgwyr.

Rydym yn sylweddoli mai ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu dysgwyr ac i benderfynu beth yw'r dull mwyaf effeithiol o wella pethau. Felly, rydym yn adolygu'r Grant Gwella Addysg ar sail y canlyniadau ac mae'r hyblygrwydd ar gael i ddarparu adnoddau yn yr ardaloedd lle mae'r angen ar ei fwyaf.

O dan delerau ac amodau'r grant, mae awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol yn atebol am gyfres o ganlyniadau a dulliau mesur canlyniadau i ddangos tystiolaeth o sut y llwyddir i wella pethau i bob dysgwr. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau i wella perfformiad dysgwyr sy'n perthyn i grwpiau cydnabyddedig lle mae cyrhaeddiad yn destun pryder sylweddol, megis grwpiau lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr. Bydd cynlluniau busnes consortia, sy'n dweud sut y caiff gwelliannau eu cyflwyno'n adlewyrchu'r gofyniad hwn.

Byddwn yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n arwain ar gyflwyno Gwasanaethau Cyflawni i Leiafrifoedd Ethnig a Gwasanaethau Addysg i Sipsiwn a Theithwyr drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'i his-grŵp Cynhwysiant, ac rydym yn cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud drwy Gymru i gefnogi'r grwpiau agored i niwed hyn.

3. Y Gweithle

Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM)

Comisiynodd Prif Gyngorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol i adolygu'r holl dystiolaeth am ferched a menywod yn cymryd rhan mewn addysg a gyrfaedd ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM). Nod yr arolwg oedd gwneud argymhellion pragmatig am yr hyn y gellid ei wneud i ddileu unrhyw rwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan yn y meysydd hyn.

Cyhoeddodd y grŵp ei ganfyddiadau ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod 2015. Mae'r adroddiad, 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus', yn dyfynnu tystiolaeth y gallai cynyddu nifer y menywod ym maes gwyddoniaeth drwy'r Deyrnas Unedig fod yn werth £2bn i'r economi genedlaethol. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth ddigonol a'r gwendid o ran cadw menywod mewn STEM, ar draws pedair prif thema sef addysg, recriwtio, cadw a hyrwyddo.

Pan lansiwyd yr adroddiad, fe ddenodd sylw yn y cyfryngau gan dynnu sylw cyhoeddus at y achos o blaid menywod mewn STEM. Croesawyd dadansoddiad ac argymhellion yr adroddiad, a bydd y Prif Gynghorydd Gwyddonol yn gweithio gyda Gweinidogion ar ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru.

Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 yn dal i ariannu cynigion sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig yng Nghymru, ac sy'n benodol yn ceisio gwella sefyllfa menywod yn y gweithle.

Ariannwyd prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth i'r Economi (WAVE) gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop rhwng 2012 a 2015. Nod y prosiect oedd mynd i'r afael â'r materion gwaelodol sy'n cyfrannu at ddiffyg cydraddoldeb rhwng cyflogau'r rhywiau yng Nghymru ym maes cyflogaeth a hunangyflogaeth. Bu tîm WAVE ym Mhrifysgol Caerdydd yn gweithio'n uniongyrchol â chyflogwyr mawr a oedd yn barod ac yn ymroddedig i ddadansoddi'r bylchau rhwng cyflogau'r rhywiau ac i gynnig cyngor ynghylch gweithredu; bu hyn yn fodd iddynt gynhyrchu Dull Dadansoddi ar gyfer Cyflogi a Chyflogau'r Rhywiau. Ar sail dadansoddiad manwl o'r gweithlu a chyflogau, cychwynnodd tri chyflogwr mawr ar raglenni newid rheolaeth helaeth a oedd yn cynnwys dros 23,000 o weithwyr.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 2

(i) Gofal plant

Canran y plant yn llwythi achosion ymwelwyr ieuchyd:

Bydd Awdurdodau Lleol yn adrodd am eu perfformiad gyda golwg ar nifer o ddangosyddion allweddol drwy gyflwyno bwletin monitro Dechrau'n Deg bob tymor. Mae hyn yn cynnwys eu perfformiad ar ddangosydd y Rhaglen Lywodraethu sy'n mesur canran plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n croesi eu cerrig milltir datblygu yn 3 oed. Nid yw casglu'r data drwy'r llyfr gwaith yn dadelfennu'r wybodaeth am y mesur hwn yn ôl nodweddion gwarchoddedig.

Drwyddi draw, cafodd 25% o blant o dan 4 oed yng Nghymru wasanaethau Dechrau'n Deg yn ystod 2015-2016, 1 o bob 4 o blant Cymru. Mae hyn yn gynnydd ar y 23% a welwyd yn 2014-2015.

Ar draws ardaloedd Dechrau'n Deg yng Nghymru, dadelfennwyd y canrannau ar lwythi achosion Ymwelwyr Iechyd yn 2015-2016 fel a ganlyn:

- plant o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig; 12%;
- plant o deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf; 3%;

- plant o deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf: 6%;
- plant rhieni yn eu harddegau: 8%;
- plant rhieni tro cyntaf: 26%;
- plant â rhiant/gofalwr anabl: 2%;
- plant anabl: 2%;

Gall plant, wrth gwrs, fod yn perthyn i fwy nag un o'r grwpiau hyn.

Nifer y plant sy'n elwa o ddarpariaeth feithrin Dechrau'n Deg:

Yn 2015-2016, cafodd 7,772 o blant ofal meithrin o dan Dechrau'n Deg (cynnydd ar y 7,658 yn 2014-2015).

Canran y plant yn cyrraedd neu'n croesi cerrig milltir datblygu yn 3 oed o'u mesur ar sail pecyn datblygu asesiad safonol:

Llwyddodd 52% o blant ardaloedd Dechrau'n Deg i gyrraedd neu groesi'r cerrig milltir datblygu a dargedwyd erbyn iddynt gyrraedd 3 oed.

(ii) Addysg

Cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion:

Mae'r data ar gyfer absenoldeb o'r ysgol yn gymhleth ac mae effaith lurguniol absenoldeb mynych yn cymhlethu'r sefyllfa eto. Gwelwyd canran y disgyblion a oedd yn absennol yn fynych yn parhau i ostwng mewn ysgolion uwchradd a gynhelir. Yn 2014-2015, roedd 4.5% o'r disgyblion yn absennol yn fynych (h.y. roeddent yn colli o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod), gostyngiad o 0.5% er 2013-2014. Serch hynny, y grŵp hwn oedd yn gyfrifol am 23.7% o'r holl absenoldebau, ac am 48.4% o'r absenoldebau heb eu hawdurdodi.

Yn 2014-2015, canran gyfartalog o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd ym mhob ysgol uwchradd a gynhelir oedd 6.2%, gan barhau â'r gostyngiad cyson a welwyd er 2009-2010 (8.9%).

Cofnodwyd lefelau uwch o absenoldebau mewn ysgolion uwchradd a gynhelir sydd â chyfran uwch o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er enghraifft, yn 2014-2015, mewn ysgolion lle'r oedd dros 30% o fyfyrwyr yn gymwys, collwyd 8.6% o sesiynau hanner diwrnod o'i gymharu â 4.9% mewn ysgolion lle'r oedd 10% neu lai o'r myfyrwyr yn gymwys. Y ffigur ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir yw 6.1%.

Nid oedd dim gwahaniaethau amlwg rhwng y rhywiau o ran absenoldebau heb eu hawdurdodi mewn ysgolion uwchradd yn 2014-2015. O ran absenoldebau'n gyffredinol, collwyd 6% o sesiynau hanner diwrnod gan fechgyn, a chollwyd 6.3% gan ferched.

Collwyd canran fwy o sesiynau (7.5%) gan fyfyrwyr â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, a hefyd gan fyfyrwyr gweithredu gan yr ysgol a mwy (9.5%) a myfyrwyr gweithredu gan yr ysgol (7.6%).

Collwyd canran lai o sesiynau hanner diwrnod na'r cyfartaledd gan ddisgyblion Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (4.5%), Duon/Duon Prydeinig (3.3%), a Tsieinaidd/Tsieinaidd Prydeinig (1.9%).

Mewn ysgolion cynradd, canran gyfartalog y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd yn 2014-2015 oedd 5.1%. Roedd 1.4% o'r disgyblion yn absennol yn fynych (h.y. roeddent yn colli o leiaf 76 o sesiynau hanner diwrnod), yn 2014-2015.

Cofnodwyd lefelau uwch o absenoldebau mewn ysgolion cynradd a gynhelir sydd â chyfran uwch o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er enghraifft, yn 2014-2015, mewn ysgolion lle'r oedd dros 32% o fyfyrwyr yn gymwys, collwyd 6.2% o sesiynau hanner diwrnod o'i gymharu â 3.9% mewn ysgolion lle'r oedd 8% neu lai o'r myfyrwyr yn gymwys. Y ffigur ar gyfer pob ysgol gynradd a gynhelir yw 5%.

Nid oedd dim gwahaniaethau amlwg rhwng y rhywiau o ran absenoldebau heb eu hawdurdodi mewn ysgolion cynradd yn 2014-2015.

Collwyd canran fwy o sesiynau (7.2%) gan fyfyrwyr â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn 2014-2015, a hefyd gan fyfyrwyr gweithredu gan yr ysgol a mwy (6.4%) a myfyrwyr gweithredu gan yr ysgol (6%).

Mewn ysgolion cynradd, collwyd canran fymryn yn fwy na'r ganran gyfartalog o sesiynau (5.3%) gan fyfyrwyr Asiaidd/Asiaidd Prydeinig. Serch hynny, collwyd canran lai o sesiynau hanner diwrnod na'r cyfartaledd gan ddisgyblion Duon/Duon Prydeinig (3.8%), a Tsieineaidd/Tsieineaidd Prydeinig (3.5%).

Canran y disgyblion 15 oed yn cyrraedd trothwy lefel 2 gan gynnwys TGAU (A*-C) mewn mathemateg a naill ai yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf:

Llwyddodd 57.9% i gyrraedd trothwy lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg yn 2015.

Llwyddodd canran lai o fechgyn i gyrraedd y safon hon (54.3%) na merched (61.8%). Mae'r ddwy ganran hyn wedi cynyddu bron 8 pwynt canran er 2011.

Wrth ddadansoddi manylion ethnigrwydd, gwelir diffyg cydraddoldeb o ran cyrraedd y safon hon. Wrth gyfanredu'r data dros dair blynedd (2013-2015) gwelir mai myfyrwyr Tsieineaidd/Tsieineaidd Prydeinig sy'n cyflawni orau ar sail y mesur hwn (79.8%). Y cyfartaledd ar gyfer myfyrwyr o gefndiroedd Asiaidd/Asiaidd Prydeinig eraill oedd 60.8% a'r cyfartaledd ar gyfer cefndiroedd ethnig cymysg oedd 58.2%. Mae myfyrwyr Duon/Duon Prydeinig yn llai tebygol o gyrraedd y safon (47.1%), ac mae'r un peth yn wir am fyfyrwyr sy'n Sipsiwn/Sipsiwn Roma (15.5%).

Mae canran y myfyrwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a gyrhaeddodd y trothwy hwn yn 2015 wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o'r grwpiau yn y categori hwn ers y llynedd. Rhwng 2014 a 2015, mae canran y rheini sy'n cyrraedd y safon 'caffael cynnar' wedi cynyddu o 12.8% i 16.4%. Mae'r rheini sy'n 'datblygu cymhwysedd' wedi cynyddu o 31.6% i 43.7%. Gellir dweud yr un peth am y rheini sy'n rhugl (74.7% i 77.9%). Gwelwyd mymryn o ostyngiad yn y rheini sy'n gymwys (67.3% i 65.2%).

Mae myfyrwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig yn llai tebygol o gyrraedd y safon hon (cyfartaledd o 23.3%). Yn y categori hwn, llwyddodd 12.5% o'r rheini sydd wedi cael datganiad, 21% o'r rheini dan Weithredu gan yr Ysgol a Mwy a 27.2% o'r rheini o dan Weithredu gan yr Ysgol i gyrraedd y safon yn 2015.

Mae lefelau cyflawni myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is o lawer gyda golwg ar y mesur hwn. Llwyddodd 31.6% o'r rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyrraedd safon gynhwysol lefel 2, o'i gymharu â 64.1% o'r rheini nad oeddent yn gymwys yn 2015. Mae'r ddwy ganran hyn wedi cynyddu er 2014 (pan llwyddodd 27.8% a 61.6% i gyrraedd y safon, yn drefn honno), ac mae'r bwlch rhyngddynt wedi cau rhyw fymryn.

Yn olaf mae'r data ynghylch absenoldeb yn datgelu effaith ragweladwy ar gyflawni. Llwyddodd 72.2% o'r rheini a gollodd 0-4% o sesiynau yn 2015 i gyrraedd y safon, o'i gymharu â dim ond 6.6% o'r rheini a gollodd fwy na 50% o'r sesiynau.

Canran yr oedolion sy'n gweithio sydd â chymhwyster trothwy lefel 2/3/4:

Yn 2015, dyma'r patrwm cyffredinol ar gyfer oedolion sy'n gweithio:

- Mae 10% heb ddim cymwysterau
- Mae gan 76% gymhwyster lefel 2 neu uwch
- Mae gan 57% gymhwyster lefel 3 neu uwch
- Mae gan 36% gymhwyster lefel 4 neu uwch.

Mae rhai eithriadau nodedig i'r cyfartaleddau hyn, fel y nodir yn y cyhoeddiad, 'Lefel y Cymwysterau Uchaf a ddelir gan Oedolion o Oed Gweithio, 2015':

- Mae 21% o unigolion anabl (ar sail diffiniad cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010) heb ddim cymwysterau, ac yn llai tebygol o fod â chymwysterau ar lefel 2 neu uwch na phobl nad ydynt yn anabl.
- Mae 20% o bobl 60-64 oed heb ddim cymwysterau, o'i gymharu â 6% o bobl 18-24 oed.
- Mae 14% o bobl o leiafrifoedd ethnig heb ddim cymwysterau, ond yn fwy tebygol o fod â chymhwyster lefel 4 neu uwch na phobl wyn (48% o'i gymharu â 36% yn y drefn honno).

Llai o anghydraddoldeb o ran deilliannau addysg a sgiliau:

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy cynhwysol Lefel 2 yn ystod Cyfnod Allweddol 4 wedi gwella yn y pum mlynedd diwethaf o 49.4% yn 2010 i 57.9% yn 2015. Mae canran y disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4 hefyd wedi cynyddu o 12.9% yn 2010 i 23.3% yn 2014.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, caeodd y bwlch fymryn rhwng canran y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni dangosydd y pynciau craidd (cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn asesiadau athrawon o Saesneg/Cymraeg, Gwyddoniaeth a Mathemateg) yn 2015 i 5.8 pwynt canran (o 6.3 yn 2014). Llwyddodd canran uwch o ferched na bechgyn i gyflawni'r safon hon (90.7% ac 84.9% yn y drefn honno). Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch rhwng y rhywiau o ran cyrraedd trothwy cynhwysol Lefel 2 (61.8% i ferched, 54.3% i fechgyn). Mae'r bwlch hwn hefyd wedi cau fymryn er 2014 (8.4 pwynt canran).

(iii) Y Gweithle

Gwahaniaethau o ran cyflogau ar sail rhyw/anabledd/ethnigrwydd:

Mae'r bwlch rhwng enillion cyfartalog fesul awr dynion a menywod yng Nghymru wedi bod yn cau dros y degawd diwethaf, er bod y bwlch wedi lledu fymryn ers y llynedd gyda chyflogau menywod yn 92.2% o gyflogau dynion yn 2015, o'i gymharu â 93.3% yn 2014.

O ran gwahaniaethau cyflog i bobl anabl, nid oes data penodol am Gymru ar gael ac mae hyn yn ein cyfyngu. Mae'r un peth yn wir hefyd am enillion gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae'r ymchwil sydd wedi'i wneud gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu bod anabledd yn cael llai o effaith ar enillion fesul awr nag y mae perthyn i grwpiau eraill sydd o dan anfantais, eto i gyd, mae bwlch cyson i'w weld o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn yr un modd, mae enillion cyfartalog fesul awr pobl o wahanol gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn amrywio'n sylweddol. I bob golwg grwpiau ethnig Indiaidd, Affricanaidd Du, a Charibiaidd Du i sy'n ennill fwyaf, ac mae hyn yn adlewyrchu eu crynodiad cymharol uchel mewn galwedigaethau sy'n talu'n dda. Serch hynny, mae enillion cyfartalog fesul awr pobl o darddiad Pacistani a Bangladeshi yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru.

Cyfraddau cyflogaeth yn ôl rhyw/anabledd/ethnigrwydd:

Mae gwahaniaethau mawr o hyd o ran cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru, fel y gwelir yn y data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2015. O ran y boblogaeth o oedran gweithio, roedd 74.1% o ddynion mewn gwaith, o'i gymharu â 66.5% o fenywod. Roedd 70.9% o oedolion gwyn mewn gwaith, o'i gymharu â 57.9% o oedolion nad ydynt yn wyn. Roedd 42.6% o bobl anabl mewn gwaith, a 77.9% o bobl nad oeddent yn anabl mewn gwaith.

Cyfraddau llwyddiant gweithgarwch dysgu addysg bellach:

Yn 2014-2015, y gyfradd llwyddiant ar gyfer gweithgareddau dysgu addysg bellach oedd 86%. Nid oedd gwahaniaeth yn y gyfradd o ran y rhywiau, ond roedd y gyfradd llwyddo i ddysgwyr anabl a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig fymryn yn uwch na'r cyfartaledd (y ddau grŵp yn 87%).

Amcan 3

Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Rhagarweiniad

Yn ystod 2015-2016, parhaodd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r amcan hwn drwy ddarparu cymorth a chanllawiau, a chreu cyfleoedd i bobl ifanc. Aeth Llywodraeth Cymru ar drywydd yr amcan hwn drwy ddilyn dull trawsbynciol gan dryfalu ymdrechion lle bynnag yr oedd modd.

Ein Camau Gweithredu

Twf Swyddi Cymru

Mae Twf Swyddi Cymru, gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yn cynnig cyfle i bobl ifanc ddi-waith sy'n barod am swydd gael gwaith am gyfnod o 6 mis. Telir yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu uwch am o leiaf 25 awr yr wythnos, a'r bwriad yw bod y cyflogwr yn cadw'r person ifanc.

Dechreuodd Twf Swyddi Cymru 2 ym mis Medi 2015 ac erbyn 29 Mawrth 2016, roedd wedi llwyddo i greu 2,066 o swyddi gwag i bobl ifanc. Mae'r data ynghylch hynt pobl ifanc sy'n cwblhau'r cyfleoedd i gael swydd am 6 mis yn gadarnhaol o hyd, gyda dros 70% o'r rhai sy'n cymryd rhan yn camu ymlaen i gyflogaeth sy'n cael ei chynnal, gan gynnwys prentisiaeth neu ddysgu pellach.

Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid yn golygu bod gofyn i bob corff sy'n ymwneud â darparu gweithgarwch i bobl ifanc ddilyn dull integredig. Rhoddir y cyfrifoldeb i awdurdodau lleol ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar unigolion i'w helpu i gamu ymlaen drwy addysg a hyfforddiant i gyflogaeth.

Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers lansio'r Fframwaith ac elfen allweddol o'i lwyddiant yw ei fod yn gallu nodi ac olrhain yn gynnar gynnydd pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhai nad ydynt mewn addysg, gwaith na chyflogaeth. Mae awdurdodau lleol yn lledaenu cymorth gweithiwr allweddol i'r bobl hynny y gwelwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio. Bydd gweithwyr arweiniol – gan gynnwys gweithwyr ieuentid, anogwyr dysgu, cynghorwyr gyrfaedd a gweithwyr ieuentid gwirfoddol – yn darparu cymorth parhaus i'r bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymddieithrio.

Parhawyd i gynnal Gweithgorau Rhanbarthol sy'n cynnwys awdurdodau lleol a chynrychiolaeth o Gyrfa Cymru, Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith, Ffederasiwn Hyfforddi Cymru, Consortia Addysg Rhanbarthol, ysgolion a'r Trydydd Sector. Eleni, rydym wedi archwilio'r materion y bydd plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal a phobl ifanc yn y system Cyfiawnder Ieuentid yn eu hwynebu ac wrth iddynt groesi'r bont o addysg orfodol i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Cyhoeddodd ICF Consulting ac Ymchwil Arad werthusiad annibynnol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ym mis Awst 2015. Y canfyddiad cyffredinol oedd bod pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd o ran rhoi'r fframwaith ar waith ers ei lansio yn 2013. Roedd llawer o'r rheini a gyfwelwyd yn canmol y fframwaith gan ddweud mai dyma'r enghraifft orau o ganllawiau/strategaeth ar gyfer pobl ifanc a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn credu bod y fframwaith wedi gwneud gwahaniaeth i'r cydweithio rhwng pob partner yn ogystal ag i'r ymgysylltu ag arweinyddion y prif sefydliadau.

Gyrfa Cymru

Rhestrir y grwpiau o bobl ifanc sy'n gleientiaid â blaenoriaeth yn llythyr cylch gorchwyl blynyddol Gweinidogion Cymru. Bydd cleientiaid â blaenoriaeth yn cael gwasanaeth sydd wedi'i deilwra fwy gan gynghorwyr Gyrfa Cymru, ac un o'r prif nodau yw helpu unigolion i ddatblygu eu "cymwyseddau rheoli gyrfa" eu hunain. Y grwpiau â blaenoriaeth a nodwyd yn llythyr cylch gorchwyl 2015-2016 oedd:

- pobl ifanc â datganiadau AAA (anghenion addysgol arbennig) neu ddatganiad cyfwerth;
- pobl ifanc 11-18 oed sydd â'r angen mwyaf am wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd;
- pobl ifanc sydd wedi'u haddysgu y tu allan i'r ysgol;
- pobl ifanc 16-17 oed sy'n ddi-waith;
- pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Mae gan bobl ifanc y mae risg iddynt ymddieithrio yr hawl i wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd gwell, gan gynnwys cyfweiliadau cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb ac amrywiaeth o adnoddau. Yn ystod 2015-2016, lansiodd Gyrfa Cymru hefyd ap gyrfaoedd i'w ddefnyddio ar ffonau clyfar.

Mae Gyrfa Cymru'n dal i ddarparu cymorth 'gweithiwr arweiniol' i helpu pobl ddi-waith 16-18 oed i ailymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fel rhan o'u rôl yn rhoi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth lleoedd gwag a lleoliadau i bobl ifanc 16-17 oed, sy'n ymadael â'r ysgol, y coleg neu â dysgu seiliedig ar waith ac yn dymuno cael gafael ar swydd neu ddychwelyd i addysg a dysgu.

Hyfforddiaethau

Nod y rhaglen Hyfforddeiaeth i bobl 16-18 oed yw helpu pobl ifanc i sicrhau gwaith y gellir ei gynnal drwy eu helpu i feithrin hyder a chymhelliant, gwella lefel eu sgiliau drwy ddarparu NVQs mewn unrhyw faes galwedigaethol o'u dewis, yn ogystal ag ennill sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith gwerthfawr, gan eu helpu i groesi'r bont i gyflogaeth.

Mae'r rhaglen yn ceisio gwella lefelau sgiliau drwy ddarparu cymwysterau ar lefel mynediad hyd at Lefel 1 NVQ yn eu dewis faes galwedigaethol, ac elfennau o'r ddarpariaeth Lefel 2 NVQ. Mae hyn yn cynnwys darparu cymwysterau sgiliau hanfodol er mwyn gwella'u profiad dysgu. Byddant hefyd yn cael profiad gwaith gwerthfawr a'r cymorth a'r help sydd ei angen arnynt i ddysgu ar gyflymder sy'n addas ar eu cyfer. Gall hyn weithiau fod gyda chyflogwr neilltuoel neu drwy amgylchedd gwaith ffug, a dibynnu ar lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar y person ifanc.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 yn cyd-fynd yn agos â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Llywodraeth Cymru. Mae'r cysylltiad hwn yn creu ymagwedd gyson at helpu pobl ifanc a sicrhau bod buddsoddi Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn wir yn ychwanegu gwerth at ymagwedd integredig at wireddu nod y rhaglen.

Yn unol â'r ymagwedd hon, mae'r diffiniad o 'bobl ifanc' wedi ei estyn i gynnwys pobl 0-24 oed (11-19 gynt), gan sicrhau bod modd defnyddio buddsoddiadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i helpu unigolion wrth iddynt symud drwy addysg y brif ffrwd i gyflogaeth gynaliadwy, gan sicrhau bod modd i ymyraethau ddechrau'n gynnar gan fynd i'r afael â'r prif bwyntiau pontio.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud eisoes wrth ddatblygu prosiectau drwy raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020, gan helpu i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, neu a allai fod mewn sefyllfa o'r fath. Hyd yn hyn mae wyth o brosiectau wedi'u cymeradwyo yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a chyfanswm buddsoddiad o dros £136 miliwn (£75m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Mae pum prosiect wedi'u cymeradwyo yn Nwyrain Cymru a chyfanswm buddsoddiad o dros £77m (£22.m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Nod y prosiectau hyn yw helpu dros 53,000 o bobl ifanc hyd at 24 oed.

Targedir yr ymyraethau o amgylch anghenion yr unigolyn ac maent yn cynnwys er enghraifft, profiad gwaith, cymorth ar gyfer sgiliau i wneud pobl yn fwy cyflogadwy, hyfforddiant a chymwysterau, datblygu sgiliau STEM, a chymorth iechyd a lles, gan gynnwys gyda chamdefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 3

Canran y bobl 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant:

Mae'r dangosydd hwn yn mesur (bob blwyddyn) canran y bobl 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET). Yn 2015, roedd 10.5% o'r rhai 16-18 yn NEET o'i gymharu â 10.8% ar ddiwedd 2014. Mae'r data ar gyfer 2015 yn dangos bod gwrywod (11.5%) yn dal yn fwy tebygol o fod yn NEET na benywod (9.6%) ymhlith y grŵp oedran hwn. Sylwer bod ffigurau 2014 wedi'u diwygio.

Canran y bobl 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant:

Yn 2015, roedd 19.0% o'r rhai 19-24 oed yn NEET o'i gymharu â 20.4% ar ddiwedd 2014 (ffigur diwygiedig). Yn wahanol i'r grŵp oedran 16-18 oed, mae data 2015 yn dangos bod benywod yn y grŵp oedran 19-24 yn dal yn fwy tebygol o fod yn NEET (21.9%) na gwrywod (16.3%).

Cyrhaeddiad pobl 19 oed:

Mae data o 2012-2013 (a gyhoeddwyd yn 'Educational attainment of young people by age 19' (Saesneg yn unig), Mawrth 2016) yn dangos erbyn iddynt gyrraedd 19 oed, fod 82% wedi cyrraedd trothwy lefel 2 (85% o fenywod, 80% o wrywod) a bod 53% wedi cyrraedd lefel 3 (59% o fenywod, 48% o wrywod). Fel y nodwyd yn y cyhoeddiad, roedd cyfran y benywod a gyrhaeddodd pob lefel yn uwch na chyfran y dynion ym mhob oedran rhwng 15 ac 19, er bod maint y bwlch hwn yn cau wrth i'r oedran gynyddu.

Nifer y bobl sy'n elwa o Twf Swyddi Cymru:

Dechreuodd Twf Swyddi Cymru 2 ym mis Medi 2015. Nifer y cyfleoedd am waith a grëwyd ac a gymeradwywyd o'r pwynt hwn tan fis Mehefin 2016 oedd 2,790. Nifer y cyfleoedd am swyddi a lenwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd 1,311.

Nifer y cyfleoedd am brentisiaethau a oedd ar gael drwy'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc:

Roedd nifer y prentisiaid a oedd yn cael cymorth o dan y rhaglen Recriwtiaid Ifanc yn sylweddol is yn 2015-2016 nag yr oedd yn 2014-2015. Canlyniad uniongyrchol newidiadau i feini prawf cymhwysedd y rhaglen oedd y gostyngiad hwn. Bydd data am y rhaglen yn 2015-2016 ar gael yn yr hydref.

Cyfraddau llwyddiant y fframwaith prentisiaethau:

Mae cyfraddau ymadawyr sy'n cyflawni'r fframwaith cyfan yn cael eu cofnodi yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Cyfradd yr ymadawyr llwyddiannus oedd 82% ar gyfer 2014-2015, gostyngiad bach o 84% yn 2013-2014. Ni welwyd dim gwahaniaethau o ran y ddau ryw, a gwelwyd mân wahaniaethau o ran ethnigrwydd (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig 80%, Gwyn 82%). Roedd gwahaniaeth fymryn yn fwy i'w weld rhwng cyfradd yr ymadawyr llwyddiannus ymhlith prentisiaid anabl (78%) o'i chymharu â'r gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (82%).

Canran y rhai sy'n ymadael â hyfforddeiaeth sy'n bwrw ymlaen â rhagor o ddysgu neu i swydd:

Nid oes dim data ar gael ynghylch y dangosydd hwn ar gyfer y flwyddyn 2014-2015 oherwydd y newidiadau yn y ffordd y cesglir y data ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn.

Roedd data Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2013-2014) yn dangos bod 71% o'r rheini a ymadawodd â hyfforddeiaeth wedi bwrw ymlaen i ddysgu pellach neu i swydd. Drwy ddadelfennu'r data yn ôl nodweddion gwarchoddedig, ni welwyd unrhyw effaith gryf o ran rhywedd, ethnigrwydd nac anabledd.

Amcan 4

Lleihau nifer yr achosion o bob math o drais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref, trais er 'anrhydedd', troseddau casineb, bwlio a cham-drin pobl hŷn

Rhagarweiniad

Mae nifer o lwyddiannau sylweddol wedi'u gweld o dan yr amcan hwn, gan gynnwys cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a lansio Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu. Dyma rai o'r camau yn ystod cyfnod adrodd 2015-2016, sy'n adeiladu ar waith blaenorol i wneud Cymru'n lle diogel a llewyrchus i fyw ynddo, a chenedl sy'n rhoi gwerth ar unigolyddiaeth ac yn ei dathlu.

Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad o'r cynnydd yn ystod 2015-2016 i roi tystiolaeth am gamau gweithredu trawsadrannol i gyflawni ar sail Fframwaith Gweithredu Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb. Mae'r dull hwn hefyd wedi cynnwys gwerthuso'r cynnydd gyda Grŵp Cyngori Annibynnol i asesu'r cynnydd ar hyn o bryd ac i nodi meysydd gweithredu pellach. Cyhoeddwyd adroddiad canlyniadau a thystiolaeth ac mae hwnnw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Parhaodd Llywodraeth Cymru i ariannu Cymorth i Ddiodefwyr Cymru i gynnal y Ganolfan Genedlaethol rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb. Roedd hyn yn cynnwys darparu eiriolaeth a chymorth i ddiodefwyr. Yn 2015-2016, cyfeiriwyd 2309 o achosion at y gwasanaeth. Mae'r ganolfan hefyd yn darparu hyfforddiant am ddim a chynigiwyd 89 o Sesiynau Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb gan hyfforddi 1388 o bobl ledled Cymru.

Ymgyrch flynyddol yw'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a gynhelir ym mis Hydref bob blwyddyn. Ei nod yw cryfhau ymwybyddiaeth ymhlith diodefwyr a hybu negeseuon ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol ynghylch mynd i'r afael â chasineb. Yn 2015, dyrannodd Llywodraeth Cymru arian i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gefnogi gweithgareddau ymwybyddiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cynnal ymgyrch genedlaethol ar y cyd rhwng pedwar Heddlu Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2015, gwelodd y Ganolfan Genedlaethol Rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb gynnydd sydyn o 20% yn nifer yr adroddiadau. Llwyddodd yr hashnod #HCAWCymru15 i gyrraedd potensial o 2.9 miliwn o bobl yn ystod yr wythnos a'r hashnod #MakeHateHistory i gyrraedd potensial o dros 900,000 yn ystod yr ymgyrch.

Trefnwyd Cynhadledd Genedlaethol ar Droseddau Casineb a Bwlio yn Oes y Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a daeth dros 170 o bobl i Barc Margam mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Roedd hyn yn cynnwys nifer o weithdai gydag amrywiaeth o ymarferwyr a nifer o siaradwyr uchel eu proffil. Yn sgil y digwyddiad, cyhoeddwyd adroddiad am y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ac roedd honno'n cynnwys nifer o argymhellion.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriedir iddi ddarparu ffocws strategol ar y materion hyn a sicrhau bod mecanweithiau ataliol, gwarchodol a chefnogol yn cael eu hystyried yn gyson wrth ddarparu gwasanaethau.

O dan y Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, a mathau eraill o drais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Penodwyd Rhian Bowen-Davies yn Gyngorydd Cenedlaethol cyntaf ym mis Medi 2015 a bydd yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol i Lywodraeth Cymru ac yn gwella'r cydweithio ymhlith cyrff cyhoeddus. Bydd y Cynghorydd yn chwarae rhan allweddol yn datblygu Strategaeth Genedlaethol gyda'r nod o roi diwedd ar drais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu sy'n rhestru'r gwaith a wneir o dan y Ddeddf yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys rhaglen eang a phellgyrhaeddol ac mae wrthi'n cael ei rhoi ar waith. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol ynglŷn â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Ei nod yw gwella dealltwriaeth gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ogystal â gwella cysondeb y ddarpariaeth hyfforddi i arbenigwyr.

Yn ogystal â hyn, ymgynghorwyd ynglŷn â nifer o ddogfennau canllawiau yn ystod 2015-2016 gan gynnwys:

- Cydweithio rhwng Asiantaethau – mae hon yn edrych ar sut mae awdurdodau perthnasol, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf, yn gallu cydweithio ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru – mae'r canllawiau hyn, a ddatblygwyd ar y cyd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn cynnig cyngor ymarferol am sut i ddarparu gwasanaethau effeithiol i bobl hŷn er mwyn atal trais a cham-drin, ac i warchod a helpu dioddefwyr a goroeswyr.

Anffurfio Organau Cenedlu Benywod

Ariannwyd Bawso (Black Association of Women Step Out) ac NSPCC Cymru gan Lywodraeth Cymru i gydweithio ar brosiect cyfranogaeth arloesol i bobl ifanc dros gyfnod o chwe mis rhwng mis Medi 2015 a mis Ionawr 2016. Nod y prosiect oedd cryfhau ymwybyddiaeth a brwydro dros newid diwylliannol gyda golwg ar anffurfio organau cenedlu benywod yng Nghymru. Yn ystod y prosiect, cofnodwyd lleisiau a barn pobl ifanc am y mater hwn i gefnogi sgysiau rhwng y cenedlaethau o fewn amrywiaeth o gymunedau a chyd-destunau gwahanol. Un o ganlyniadau'r prosiect oedd datblygu taflen a ffilm i gyd-fynd â hi yn dangos bod angen chwalu'r tawelwch ynghylch y materion hyn.

Lansiwyd y prosiect a'r adnoddau sy'n cyd-fynd ag ef yn Nigwyddiad Ieuenctid Llywodraeth Cymru ar 8 Mawrth 2016 i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Y gwaddol ehangach yw bod y grŵp hwn bellach yn llysgenhadon medrus, hyderus ac ymwybodol dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn eu cymunedau, a'u bod yn gallu cefnogi newid diwylliannol ehangach a chyfrannu ato ar draws cenedlaethau ar faterion yn ymwneud â thrais seiliedig ar anrhydedd megis anffurfio organau cenedlu benywod a'u gorfodi i briodi.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 4

Troseddau casineb

Cofnodwyd 2,259 o droseddau casineb yng Nghymru yn 2014-2015. Mae hyn yn gynnydd parhaus yn y nifer a gofnodwyd er 2012-2013 (1,810). Y ffigur yn 2013-2014 oedd 1,955. Mae'n bosibl bod yr ystadegau hyn yn tanamcangyfrif faint o droseddau casineb sydd oherwydd nad yw'r cyfan yn cael eu riportio.

Nifer y troseddau casineb a gyfeiriwyd at y Ganolfan Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb drwy gyfrwng Cymorth i Ddiodeffwyr Cymru

Yn 2015-2016, nifer y troseddau casineb a gyfeiriwyd at y Ganolfan Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb drwy gyfrwng Cymorth i Ddiodeffwyr Cymru oedd 2,309. O blith y rhain, roedd 1,574 yn gysylltiedig â hil, 319 yn gysylltiedig â rhywioldeb, 240 ag anabledd, 90 â chrefydd a 25 â hunaniaeth o ran rhywedd. Daw'r data hyn o wybodaeth reoli adrannol.

Nifer y bobl sy'n dilyn sesiynau hyfforddi am Droseddau Casineb

Nifer y bobl fu'n dilyn sesiynau hyfforddi am droseddau casineb yn 2015-2016 oedd 1,388, a ddarparwyd drwy gyfrwng 89 o sesiynau hyfforddi. Daw'r data hyn o wybodaeth reoli adrannol.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Canran yr erlyniadau a'r euogfarnau llwyddiannus mewn achosion trais yn erbyn menywod:

Roedd 74.5% o'r erlyniadau mewn achosion trais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru'n llwyddiannus yn 2014-2015. Roedd hyn fymryn yn is nag yn y flwyddyn flaenorol (76.7% yn 2013-2014).

Cam-drin domestig/troseddau rhyw:

Cofnodwyd 46,431 o achosion cam-drin domestig yn 2014-2015. Roedd hyn yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol (47,345 yn 2013-2014).

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2015, cofnodwyd 5,016 o droseddau rhyw yng Nghymru.

Nifer y bobl a gyfeiriwyd at Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg:

Nod y Cynadleddau hyn yw helpu ac amddiffyn oedolion a phlant sy'n wynebu risg uchel o niwed difrifol. Yn 2015, cyfeiriwyd 5,494 o achosion. Daw'r data hyn o wybodaeth reoli adrannol.

Nifer y galwyr sy'n cael cymorth gan Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan:

Nifer y galwadau i Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan gan alwyr a oedd yn dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn 2015-2016 oedd 5,044.

Cyfanswm nifer y galwadau i Linell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan yn 2015-2016 oedd 28,392 (28,183 o alwadau a 209 o ymholiadau e-bost).

Amcan 5

Mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd

Rhagarweiniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu pobl anabl drwy ei gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau a thrwy ddarparu cyfleoedd a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas a chyfrannu'n llawn ati. Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol yn cynnig rhaglen weithredu fanwl gyda golwg ar Amcan 5. Mae'r Fframwaith yn hybu hawliau pobl anabl yng Nghymru i fyw'n annibynnol ac i arfer yr un hawliau ag sydd gan bobl eraill.

Ein Camau Gweithredu

Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol

Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol yn canolbwyntio ar gyflawni ac mae'n nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd drwy adrannau Llywodraeth Cymru a chyda'n partneriaid allanol i hybu byw'n annibynnol. Mae'n arddel ymagwedd gadarnhaol sydd wedi'i seilio ar fodel cymdeithasol anabledd, ac mae'n canolbwyntio ar chwalu'r pethau sy'n rhwystro cydraddoldeb a chynhwysiant mewn saith maes sy'n flaenoriaeth:

- Gwybodaeth, Cyngor, Eiriolaeth a Chymorth gan Gymheiriaid
- Tai hygyrch a thai â chefnogaeth
- Cefnogaeth a gofal personol
- Technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- System gludiant ddirwystr
- Mannau hygyrch a chynhwysol
- Cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth

Mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn cynnwys rhanddeiliaid o sefydliadau anabledd ac mae'n cynnig cyfle iddynt nodi'r materion sy'n rhwystro cynnydd. Mae'r cynnydd ar y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn y Fframwaith hefyd yn cael ei fonitro gan Fwrdd Rhaglen Fewnol o swyddogion o adrannau perthnasol.

Rhestrwyd y prif flaenoriaethau a nodwyd yn y Fframwaith gan bobl anabl fel y rhai sydd bwysicaf iddynt. Mae'r camau a ganlyn yn dangos y cynnydd gyda'r blaenoriaethau hyn yn ystod y cyfnod adrodd.

Gwybodaeth, Cyngor, Eiriolaeth a Chymorth gan Gymheiriaid

Dechreuodd Cymunedau Digidol Cymru, y rhaglen a olynodd Cymunedau 2.0, ar 1 Ebrill 2015. Mae'r Rhaglen yn helpu cyrff partner sy'n gallu cyrraedd y grwpiau hynny yn y gymdeithas sy'n wynebu'r allgáu digidol mwyaf. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael ag allgáu digidol ymhlith yr holl oedolion gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl anabl.

Pasiwyd Rheoliadau a Chod Ymarfer sy'n gysylltiedig â rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2015-2016. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ymwneud â chanlyniadau llesiant; asesiadau o anghenion y boblogaeth, gwasanaethau ataliol a gwybodaeth, cyngor a chymorth. Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn galluogi pawb, gan gynnwys y rheini sy'n dewis ariannu eu gofal eu hunain, i gael gfael ar wybodaeth a chyngor dibynadwy o safon am yr opsiynau gofal a chymorth a fydd yn gweddu orau iddynt fel unigolion neu i'r rheini y byddant yn gofalu amdanynt.

Tai hygyrch a thai â chefnogaeth

Adolygwyd rhaglenni cymhorthion ac addasiadau gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r opsiynau ar gyfer system gyson, hygyrch o safon ar gyfer addasiadau i helpu pobl anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Ar ôl yr adolygiad, sefydlwyd gweithgor i edrych ar sut y gellid darparu gwasanaeth addasiadau gwell. Ym mis Mawrth 2016, rhoddodd y grŵp ei argymhellion a bydd y gwasanaeth gwell yn cael ei ledaenu yn ystod 2016-2017.

Mae Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 yn cynnwys gofyniad i ddarparu contract safonol â chefnogaeth i bobl sy'n byw mewn llety â chefnogaeth. Bydd hyn yn egluro ac yn cryfhau hawliau tenantiaeth pobl sydd ag anableddau dysgu sy'n byw mewn tai â chefnogaeth.

Cefnogaeth a gofal personol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith statudol i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, i wella llesiant pobl sydd ag angen gofal a chymorth, a gofalu'r sydd ag angen cefnogaeth.

Cyhoeddwyd cod ymarfer gyda golwg ar Ran 2 o'r Ddeddf ym mis Rhagfyr 2015 i roi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynglŷn â'u dyletswyddau yn y cyswllt hwn. Mae'r cod yn gosod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydweithio â phobl i ddeall beth sy'n bwysig iddynt ac i gydgyhyrchu'r atebion y mae eu hangen i sicrhau eu llesiant personol.

Technoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Drwy gyfrwng Cymunedau Digidol Cymru, mae sefydliadau a grwpiau anabledd wedi cael pecyn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i helpu eu haelodau a'u cleientiaid i ddefnyddio technolegau digidol.

Cyhoeddwyd ein strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ym mis Rhagfyr 2015. Ei gweledigaeth yw arfogi'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol â'r arfau digidol sydd eu hangen arnynt i weithio'n effeithiol a sicrhau'r gofal o'r safon orau ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

Mae GIG Cymru ac awdurdodau lleol wedi cydweithio i gaffael System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru gyda'r nod o alluogi mwy o integreiddio rhwng timau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddarparu cofnod gofal ar y cyd er mwyn sicrhau bod anghenion dinasyddion yn parhau'n flaenoriaeth ddiymwad.

System gludiant ddirwyst

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o ganlyniadau gwirfoddol ynghylch ansawdd bysiau y bydd angen i weithredwyr bysiau eu darparu er mwyn cael y Grant Cymorth i Wasanaethau Bysiau o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Mae'r gofyniad hwn wedi'i gyflwyno eisoes yn y de-ddwyrain. Rhoddwyd £25m i awdurdodau lleol o dan y Grant Cymorth newydd i Wasanaethau Bysiau yn 2015-2016. Mae'r dyraniadau hyn yn cynnwys disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn gwario o leiaf 5% o'u dyraniadau'n gefn ar gludiant cymunedol ond mae'n cynghori y gallai 10% fod yn briodol, a dibynnu ar amgylchiadau lleol.

Cyhoeddwyd pecyn 'Cyrraedd Yno Gyda'n Gilydd' ym mis Chwefror 2016. Mae'r pecyn hwn yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd y broses ymgynghori ynghylch newidiadau i wasanaethau trafniadaeth yng Nghymru.

Mannau hygyrch a chynhwysol

Daeth newidiadau i'r gofynion ynghylch y datganiad dylunio a mynediad ym mis Mawrth 2016. Rydym wedi gweithio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru i gynhyrchu canllawiau i ddatblygwyr ac awdurdodau cynlluniau lleol ar gyfer dadansoddi safleoedd. Yn ogystal â hyn, datblygwyd cyfres o weithdai gan RSAW/CEW a Chomisiwn Dylunio Cymru. Rhan o hyn oedd darparu hyfforddiant ynglŷn â dylunio cynhwysol ar gyfer byw'n annibynnol mewn pedwar lleoliad drwy Gymru yn ystod Gwanwyn 2016.

Cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth

Rydym wedi cynnal astudiaeth ar sut mae trefniadau pontio Anghenion Addysgol Arbennig yn gweithio'n ymarferol yng Nghymru ar hyn o bryd ac ymhle y gellid gwella pethau. Mae'r canfyddiadau wedi'u rhannu ag awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 i ystyried eu trefniadau pontio lleol a'u meysydd gwella eu hunain.

Bydd darparwyr hyfforddiant sydd wedi sicrhau contract i ddarparu ein rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, megis Twf Swyddi Cymru, Hyfforddiaethau, Barod am Waith a Phrentisiaethau, yn cael eu monitro i sicrhau bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith i sicrhau cyfle cyfartal i ddysgwyr presennol a darpar ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr anabl.

Llwyddodd Grant Cymorth i Gyflogwyr Remploy i helpu dros 250 o gyn-weithwyr anabl Remploy i gael gwaith, gydag oddeutu 90 o gyflogwyr. Bydd y cynllun yn parhau i gynnig cymhorthdal cyflog i gyflogwyr y gweithwyr hyn dros gyfnod o bedair blynedd y cynllun a hynny ar sail gostwng y cymorth fesul tipyn tan 2018-2019.

Cymorth i Sefydliadau Pobl Anabl

Yn ystod 2015-2016, parhaodd Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru i gefnogi dau brosiect i helpu pobl i fyw'n annibynnol:

Prosiect Galluogi Cymru: Nod Anabledd Cymru, gan weithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chanolfan Byw'n Annibynnol DEWIS, yw cynyddu nifer y sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bobl anabl ac ar eu cyfer er mwyn iddynt ymwneud rhagor â chynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn ystod ail flwyddyn y prosiect, mae cyrsiau hyfforddi i bobl anabl wedi'u cynnal ledled Cymru i'w hysbysu am eu hawliau a'u hannog i gymryd rhan.

Prosiect Cynhwysiant Synhwyrdd: Mae Action on Hearing Loss Cymru yn gweithio gyda'r Royal National Institute of Blind People Cymru i hyfforddi a helpu pobl sydd â nam synhwyrdd i rannu eu profiadau personol â darparwyr gwasanaethau. Canolbwyntiwyd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr ail flwyddyn. Mae straeon defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cofnodi i'w bwydo i becyn a gyhoeddir ar ddiwedd y prosiect.

Hyfforddiant i Awdurdodau Lleol: Yn ystod 2015-2016, darparwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi aelodau a swyddogion Awdurdodau Lleol am gydraddoldeb ym maes anabledd ac ymwybyddiaeth ohono. Roedd yr hyfforddiant yn ymdrin â chyfrifoldebau cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Mae adnoddau'r sesiynau hyfforddi wedi'u darparu ar-lein.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 5

Mae'r ddogfen Fframwaith yn cynnwys nifer o brif ddangosyddion a fydd yn help inni fonitro'r cynnydd o ran byw'n annibynnol. Rydym wedi datblygu fframwaith canlyniadau sy'n cynnwys y dangosyddion hynny ynghyd â dulliau mesur eraill.

Mae'r canlynol yn sampl o'r dangosyddion hyn yr ydym wedi adrodd yn eu cylch o'r blaen.

Canran pobl anabl ar aelwydydd sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwyd:

Nid oes data ar gael ar gyfer 2015-2016 (gweler y nodyn ar dudalen 24).

Roedd data 2014-2015 yn dangos bod 70% o oedolion (16+oed), sydd â salwch tymor hir cyfyngol, yn byw ar aelwydydd sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwyd. Serch hynny, mae 89% o'r rheini sydd heb salwch tymor hir cyfyngol yn byw ar aelwydydd sydd â chysylltiad â'r rhyngwyd. Oedran (sydd â chysylltiad cryf â salwch tymor hir cyfyngol) sy'n debygol o fod yn gyfrifol am rai o'r gwahaniaethau rhwng y rheini sydd â salwch tymor hir cyfyngol a'r rheini sydd heb salwch o'r fath.

Lefel bodlonrwydd pobl anabl â'r system cludiant cyhoeddus:

Nid oes data diweddar ar gael am fodlonrwydd pobl â'r system gludiant cyhoeddus.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dod o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-2014, sef y data yr adroddwyd yn eu cylch y llynedd. Roedd hyn yn dangos rhywfaint o wahaniaeth o ran lefel bodlonrwydd oedolion sydd â salwch tymor hir cyfyngol a'r rhai sydd heb salwch o'r fath. Roedd 39% o oedolion (16+ oed), sydd â salwch tymor hir cyfyngol, yn rhoi sgôr uchel (7 i 10, a 10 yw'r mwyaf bodlon) i'r system gludiant o'i gymharu â 46% o'r rheini heb salwch tymor hir cyfyngol.

Nifer sy'n Manteisio ar Daliadau Uniongyrchol:

Mae'r dangosydd hwn yn mesur nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n cael taliadau uniongyrchol.

Mae nifer yr oedolion sy'n cael taliadau uniongyrchol wedi parhau i gynyddu. Yn 2014-2015, roedd 4,463 yn cael taliadau uniongyrchol, o'i gymharu â 4,148 yn y flwyddyn flaenorol. Daw'r data hyn o 'Asesiadau a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yng Nghymru'.

Cyfraddau cyflogaeth pobl anabl:

Mae'r dangosydd hwn yn cymharu'r prif gyfraddau cyflogaeth i unigolion anabl o oedran gweithio (16-64) yng Nghymru â gweddill y boblogaeth sy'n oedolion o oedran gweithio. Mae data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn dangos bod y gyfradd gyflogaeth i bobl anabl (yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016 yn 43.3%, sy'n is na'r 78.7% ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio nad yw'n anabl.

Cyfraddau gweithgarwch economaidd pobl anabl:

Mae data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016 yn dangos bod y gyfradd gweithgarwch economaidd (16-64 oed) ar gyfer pobl anabl (48.4%) yn is nag ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (82.7%).

Canran y bobl anabl heb ddim cymwysterau ffurfiol:

Mae pobl anabl (anabl ar hyn o bryd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a/neu'n anabl mewn ffordd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio) yn fwy tebygol o fod heb ddim cymwysterau nag y mae pobl nad ydynt yn anabl, ac yn llai tebygol o fod â chymwysterau ar lefel 2, 3 a 4 neu uwch.

Ym mis Rhagfyr 2015, roedd 21% o bobl anabl heb ddim cymwysterau (7% ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl), ac yn 2014, y canrannau oedd 18.3% a 6.2% yn y drefn honno.

Canran myfyrwyr Cymru sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig sy'n anabl:

Yn 2014-2015, roedd 12,115 o fyfyrwyr anabl o Gymru wedi'u cofrestru mewn prifysgolion yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn 12.2% o gyfanswm nifer y myfyrwyr o Gymru. Yn y flwyddyn flaenorol (2013-14), roedd 11.4% o fyfyrwyr Cymru a oedd wedi'u cofrestru ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig yn anabl (11,385 o fyfyrwyr).

Canran y penodiadau cyhoeddus newydd sy'n anabl:

At ddiben y dangosydd hwn, diffinnir penodiadau uwch fel hyn: cadeiryddion ac aelodau Cyrff Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a benodir gan Weinidogion Cymru.

Yn 2015-2016, roedd 4.3% o'r penodiadau newydd i swyddi cyhoeddus rheoledig yn dweud eu bod yn anabl, sy'n debyg i'r gyfran yn 2014-2015 (4%). Roedd 1% o'r penodiadau newydd i swyddi cyhoeddus heb eu rheoleiddio'n dweud eu bod yn anabl.

Amcan 6

Sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig

Rhagarweiniad

Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol ym mywydau pobl Cymru. Ni waeth a ydynt yn cadw pobl yn ddiogel, yn iach ynteu ym maes llety, maent yn darparu gwasanaethau sy'n cefnogi llawer o'n hawliau hanfodol a sylfaenol.

Dylai cyflawni gwasanaethau cyhoeddus bob tro adlewyrchu anghenion y cyhoedd. Bydd canolbwyntio rhagor ar bobl yn golygu bod modd darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell sy'n diwallu gofynion pawb. Gall hyn helpu darparwyr i weld a datrys rhwystrau sy'n atal pobl â nodweddion gwarchoddedig rhag manteisio ar wasanaethau. Mae hon yn her o bwys i holl sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus.

Ein Camau Gweithredu

Iechyd

Ychwanegu at Fywyd

'Ychwanegu at Fywyd', yw'r prawf iechyd a llesiant i bobl 50 oed neu hŷn yng Nghymru. Hunanasesiad cyfrinachol a hawdd ei ddefnyddio yw hwn, y gellir ei wneud arlein neu, gyda help, dros y ffôn gan Galw GIG Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfle i bobl sy'n 50 oed neu'n hŷn gael darlun cyffredinol o'u hiechyd a bydd yn eu helpu i wella'u hiechyd a'u llesiant drwy gymryd camau bach hawdd eu cyflawni, yn ogystal â'i gwneud yn haws iddynt gael gafael ar y gwasanaethau atal mwyaf effeithiol.

Defnyddiwyd gwerthusiad ffurfiannol o'r cynllun 'Ychwanegu at Fywyd' cychwynnol i ddatblygu'r fersiwn ddiweddaraf o 'Ychwanegu at Fywyd' a aeth yn fyw ym mis Ebrill 2015. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddarparu a datblygu 'Ychwanegu at Fywyd' gan ymateb i adborth defnyddwyr.

Teithio at Iechyd Gwell

Cyhoeddwyd 'Teithio at Iechyd Gwell' ym mis Gorffennaf 2015 ar ôl tri mis o ymgynghori. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu ymarferwyr gofal iechyd i weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr ac fe gysylltwyd â Sipsiwn a Theithwyr yn ystod pob cam wrth eu cynhyrchu.

Mae 'Teithio at Iechyd Gwell' yn rhoi cyngor am ymarfer proffesiynol a allai annog mwy i fanteisio ar wasanaethau iechyd. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen yn helpu i ddarparu gwell ymwybyddiaeth o statws iechyd ac anghenion iechyd Sipsiwn a Theithwyr ac yn rhoi mwy o hyder i Sipsiwn a Theithwyr ddeall a chyfleu eu hanghenion iechyd eu hunain a defnyddio gwasanaethau iechyd.

Yn gefn i'r canllawiau Teithio at Iechyd Gwell, ceir nifer o ddulliau mesur canlyniadau i fyrddau iechyd, i'w helpu i'w rhoi ar waith yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd casglu data am ethnigrwydd er mwyn nodi anghydraddoldebau'n iawn. Felly, byddwn hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd i'w helpu i safoni'r trefniadau monitro ethnigrwydd a ddefnyddir eisoes.

Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Mae'r cynllun yn cydnabod bod sicrhau mynediad teg a chyfartal at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac er mwyn iddynt allu bod yn rhan o'u cymunedau.

Mae'n cynnwys nifer o ymrwymadau o ran gofal iechyd, gan gynnwys sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer cynnal asesiadau iechyd cychwynnol i geiswyr lloches a mynediad at wasanaethau meddygol cyffredinol i ffoaduriaid newydd a cheiswyr lloches a bod y llwybrau at wasanaethau iechyd meddwl i geiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael eu gwella.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau'n ddiweddar yn 2015 i GIG Cymru a sefydliadau partner ynglŷn â diwallu anghenion gofal iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd Cymru.

Tai

Rhaglen Cefnogi Pobl

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu rhai o'r bobl sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf yng Nghymru i fyw'n annibynnol yn eu cartref neu yn eu llety eu hunain. Cynllun ariannu ymyraethau cynnar ac ataliol yw hwn, sy'n helpu pobl ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw, ac mae'n helpu pobl eraill i osgoi mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf.

Mae'r canlyniadau a gafwyd gan Awdurdodau Lleol yn adlewyrchu 11 o wahanol fathau o anghenion gan gynnwys teimlo'n ddiogel, rheoli arian a llety, mynd i fyd addysg neu waith a theimlo'n gorfforol neu'n feddyliol iach. Bydd gweithwyr cefnogi'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau i benderfynu pa rai o'r canlyniadau hyn sy'n berthnasol i'r unigolyn.

Ar gyfer chwe mis cyntaf 2015-2016, cafodd Llywodraeth Cymru 54,305 o gofnodion canlyniadau gan awdurdodau lleol. Sylwer na fydd rhai defnyddwyr gwasanaethau wedi cyrraedd pen draw eu pecyn cymorth erbyn adeg casglu'r data, ac felly ni fyddant wedi cyflawni'r canlyniad(au) terfynol. I ddangos y cymorth a ddarparwyd gan y Rhaglen i helpu pobl:

- Cafodd 2,993 o fenywod help gan wasanaethau'n gysylltiedig â thrais domestig. Roedd 58% yn teimlo'n fwy diogel yn sgil y cymorth a gawsant. Roedd 51% yn teimlo'u bod yn gallu rheoli eu llety'n well ac roedd 38% yn gallu rheoli eu perthynas â phobl eraill yn well.

- Cafwyd 9,444 o ganlyniadau ar gyfer pobl dros 55 oed. O blith y rhain, roedd 47% yn teimlo'n fwy diogel yn sgil y cymorth, 33% yn teimlo'n gorfforol iachach a 32% yn teimlo eu bod yn gallu byw bywyd iach ac egniol yn well.
- Cafodd 3,247 o bobl o dan 25 oed, gan gynnwys rhai'n gadael gofal, gymorth yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 34% yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r cymorth, 50% yn gallu rheoli eu llety'n well ac roedd 29% yn gallu ymwneud ag addysg a dysgu.
- Drwy gyfrwng gwasanaethau, rhoddwyd cymorth i 9,376 o bobl yr oedd ganddynt anableddau dysgu, neu anableddau meddyliol neu gorfforol. Roedd 37% yn teimlo'n fwy diogel yn ystod y cyfnod hwn, roedd 46% yn gallu rheoli eu llety eu hunain yn well a 30% yn teimlo'u bod yn gallu byw bywyd iach ac egniol yn well. Bydd y categorïau hyn o gleientiaid yn aml yn cael cymorth am gyfnod hwy nag eraill a bydd y canlyniadau llwyddiannus yn cael eu cyflawni dros gyfnod hwy.
- Cafodd 119 o ddynion help gan wasanaethau'n gysylltiedig â thrais domestig. Roedd 69% o'r rheini'n teimlo'n fwy diogel yn sgil y cymorth a gawsant, 63% yn gallu rheoli eu llety'n well a 58% yn teimlo'u bod yn gallu cyfrannu'n well at eu diogelwch eu hunain ac at ddiogelwch pobl eraill.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, i wella llesiant pobl sydd ag angen gofal a chymorth, a llesiant gofalwyr sydd ag angen cefnogaeth.

Drwy gydol 2015-2016, gosodwyd codau ymarfer a chanllawiau statudol sy'n ffurfio fframwaith cyfreithiol y Ddeddf gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cyhoeddi'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru cyn cychwyn y Ddeddf ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod ymagwedd at wasanaethau cymdeithasol yn bwrw gwreiddiau sydd ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru'n graidd iddi. Mae dyletswyddau ar unrhyw unigolyn sy'n gweithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wedi'u gosod ar wyneb y Ddeddf.

Yn ogystal â hynny, wrth roi swyddogaethau ar waith sy'n gysylltiedig â phobl anabl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr anabl y mae angen cymorth arnynt, rhaid i awdurdodau lleol hefyd, o dan God Rhan 2, roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

Mae Cod Rhan 10 yn annog darparu eiriolwyr i bawb y mae eu hangen arno ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu eiriolwyr annibynnol ar gyfer y rheini na fyddent fel arall yn gallu cymryd rhan yn llawn yn yr asesiad, cynllunio gofal neu brosesau eraill a ddilynir wrth wneud penderfyniadau am ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth. Un o egwyddorion pennaf y Ddeddf yw ymyrraeth gynharach a chynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn hybu byw'n annibynnol. Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr â rhoi llais a rheolaeth i'r rheini sydd ag anghenion drwy, er enghraifft, fynnu bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn ystyried canlyniadau llesiant y mae pobl yn dymuno'u cyflawni yn eu bywyd bob dydd wrth asesu eu hanghenion am ofal a chymorth.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 6

Iechyd

Cyfraddau bodlonrwydd gwasanaethau iechyd cyhoeddus:

Nid oes data ar gael ar gyfer 2015-2016 (gweler y nodyn ar dudalen 23).

Adroddwyd am ddata'r Arolwg Cenedlaethol yn flaenorol ar gyfer 2014-2015. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio gwasanaethau iechyd o 0-10, gyda 10 yn 'eithriadol o dda'. At ddiben yr adroddiad hwn, nodwyd bod ymatebwyr a roddodd sgôr o 7 neu fwy yn 'fodlon dros ben'. Dangosodd ganlyniadau'r Arolwg fod dros 50% o ymatebwyr yn rhoi sgôr o 7/10 neu uwch i wasanaethau, sy'n dangos eu bod yn fodlon dros ben â'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Y grwpiau oedran 16-24, a'r rheini dros 75 oed, oedd y mwyaf tebygol o adrodd eu bod yn fodlon dros ben (57% a 68%, yn y drefn honno). Rhoddodd lai na 50% o'r grwpiau oedran 25-44 oed a 45-65 oed sgoriau ychydig yn is.

Nid oedd gwahaniaethau mawr yn lefelau'r bodlonrwydd ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru rhwng y rhywiau, rhwng y rheini â salwch tymor hir cyfyngol, anabledd neu lesgedd â'r rheini nad oeddent yn dioddef yn y modd hwnnw.

Mynediad at Feddyg Teulu:

Mae'r dangosyddion hyn yn monitro mynediad cleifion at feddygfeydd meddygon teulu a'u gwasanaethau.

Yn 2015, roedd 82% o feddygfeydd meddygon teulu ar agor ar gyfer yr oriau craidd dyddiol, (08:00 tan 18:30) neu o fewn awr i'r oriau craidd dyddiol, o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Mae hyn yn gynydd ar y 80% a welwyd yn 2014-2015.

Yn 2015, roedd 97% o bractisau'n cynnig apwyntiadau unrhyw bryd rhwng 17:00 ac 18:30 ar o leiaf 2 ddiwrnod gwaith, yr un ganran ag yn 2014.

Yn 2015, roedd 4% o bractisau ar gau am hanner diwrnod ar un diwrnod gwaith neu fwy, gostyngiad o'i gymharu â'r 6% a welwyd yn 2014.

Bwlch yn y disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf di-fraint:

Gan ddefnyddio data wedi'u cyfanredu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012-2014), y bwlch yn y disgwyliad oes rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf di-fraint Cymru oedd 8.6 o flynyddoedd i wrywod a 6.9 o flynyddoedd i fenywod. Bernir yr amddifadedd ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Tai

Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir:

Darparwyd 2,218 o unedau tai fforddiadwy yn 2014-2015. Mae hyn yn cyfateb yn fras i gyfartaledd y nifer a ddarparwyd dros y saith mlynedd blaenorol (2007-08 tan 2013-15), sef 2,283.

Nifer y cartrefi gwag y gellir eu defnyddio eto yn sgil camau gan Awdurdodau Lleol:

Yn sgil camau uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol, llwyddwyd i sicrhau bod 3,089 o dai a oedd wedi bod yn wag ers chwe mis neu ragor ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn dod yn gartrefi eto yn ystod y flwyddyn (2014-2015). Mae nifer y tai y gellir eu defnyddio eto'n parhau i godi bob blwyddyn, o 596 yn 2009-2010.

Nifer a dderbynnir yn ddigartref fesul 1,000 o aelwydydd:

O blith y 7,128 o aelwydydd yr aseswyd eu bod dan fgygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 o ddiwrnodau (o dan Adran 66) yn 2015-16:

- roedd 58% o'r ymgeiswyr yn fenywod (2% yn anhysbys)
- roedd 28% o'r ymgeiswyr rhwng 16 a 24 oed (2% yn anhysbys)
- roedd 6% yn dod o gefndir pobl dduon neu leiafrif ethnig (12% yn anhysbys).

O blith y 6,891 o aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref (o dan Adran 73) yn 2015-16:

- roedd 41% o'r ymgeiswyr yn fenywod (1% yn anhysbys)
- roedd 29% o'r ymgeiswyr rhwng 16 a 24 oed (1% yn anhysbys)
- roedd 7% yn dod o gefndir pobl dduon neu leiafrif ethnig (9% yn anhysbys).

Ac, o blith y 1,563 o aelwydydd yr aseswyd eu bod yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac yn flaenoriaeth o ran angen (o dan Adran 75) yn 2015-16:

- roedd 61% o'r ymgeiswyr yn fenywod (0% yn anhysbys)
- roedd 35% o'r ymgeiswyr rhwng 16 a 24 oed (0% yn anhysbys)
- roedd 15% yn dod o gefndir pobl dduon neu leiafrif ethnig (7% yn anhysbys)
- roedd 49% yn aelwydydd un person, a 56% o'r rheini'n ymgeiswyr gwryw a 44% yn ymgeiswyr benyw
- roedd 34% yn aelwydydd rhiant sengl â phlant dibynnol. Ar gyfer 93% o'r aelwydydd rhiant sengl hyn â phlant dibynnol, menyw oedd yr ymgeisydd.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Dangosyddion Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol:

Canran defnyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n teimlo'u bod yn cael rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch sut y darperir gofal neu gymorth:

Nid oes data ar gael ar gyfer 2015-2016 (gweler y nodyn ar dudalen 24).

Roedd y data yr adroddwyd yn eu cylch o'r blaen o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2014-15 yn dangos bod 80% o'r rheini a gâi help gan y gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru'n cytuno eu bod wedi cael rhan mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch y gofal neu'r cymorth a ddarperid.

Canran defnyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n dweud bod gwasanaethau gofal a chymorth yn ardderchog neu'n dda:

Nid oes data ar gael ar gyfer 2015-2016 (gweler y nodyn ar dudalen 24).

Roedd y data yr adroddwyd yn eu cylch o'r blaen ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod 71% o'r rheini a gafodd help gan wasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yn y 12 mis blaenorol yn dweud bod y bobl a oedd wedi rhoi help, gofal neu gymorth uniongyrchol iddynt yn ardderchog neu'n dda.

Canran y bobl sy'n teimlo iddynt gael eu trin â pharch:

Nid oes data ar gael ar gyfer 2015-2016 (gweler y nodyn ar dudalen 24).

Roedd y data yr adroddwyd yn eu cylch o'r blaen ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod 96% o'r bobl a oedd wedi ymweld â'u Meddygfa yn y 12 mis blaenorol a 96% o'r rheini a oedd wedi cael apwyntiad yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Canran defnyddwyr gwasanaethau oedolion y rhoddir help iddynt fyw yn y gymuned:

Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran yr oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol i oedolion y rhoddir help iddynt fyw yn y gymuned. Mae wedi aros yn gyson rhwng 81% ac 83% er 2006-07. Yn 2014-2015, y ganran oedd 82%. Daeth y data ar gyfer y dangosydd hwn o 'Aseidiadau a gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yng Nghymru, 2014-2015'.

Amcan 7

Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus

Rhagarweiniad

Mae'n bwysig bod byrddau llywodraethu ein cyrff cyhoeddus yn cynnwys aelodau sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru. Pan fydd pobl o bob rhan o gymdeithas yn cael eu cynrychioli ar fyrddau cyhoeddus, mae hynny'n sicrhau safbwyntiau amrywiol a phenderfyniadau mwy gwybodus am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a hynny'n lleol ac yn genedlaethol.

Ein Camau Gweithredu

Cais am Dystiolaeth

Ar 5 Hydref 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru Gais am Dystiolaeth ynglŷn â chael rhagor o fenywod a grwpiau eraill sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn gynrychiolwyr ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus. Nod y Cais am Dystiolaeth oedd ein helpu i ddeall yn well yr heriau a'r rhwystrau sy'n cyfrannu at ddiffyg cynrychiolaeth ddigonol i grwpiau penodol ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus, a'r camau sydd wedi llwyddo i fynd i'r afael â hyn yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill.

Fel rhan o'r Cais hwn am Dystiolaeth, bu sefydliadau arbenigol sy'n canolbwyntio ar fenywod a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar grwpiau eraill sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn dwy drafodaeth bwrdd crwn i rannu safbwyntiau a thystiolaeth. Daeth ymarfer y Cais am Dystiolaeth i ben ar 27 Tachwedd 2015. Cyhoeddwyd yr adroddiad cryno ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016. Bydd y sail dystiolaeth gadarn hon yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ein hymateb i'r prinder menywod a grwpiau eraill mewn penodiadau cyhoeddus.

Rhaglen beilot ar gyfer grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus

Darparwyd rhaglen datblygu beilot i grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus ar gyfer hyd at 20 o bobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ledled Cymru. Roedd y rhaglen beilot yn cynnwys hyfforddiant, darparu mentor lleol a/neu anogwr, a chyfleoedd i bobl oedd yn cymryd rhan gysgodi Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd.

Cynhaliwyd digwyddiad graddio ym mis Mawrth 2016. Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso gan ddysgu gwersi a bydd arferion da'n cael eu rhannu â Chadeiryddion ac â Byrddau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Cynhadledd Merched yn Gwneud Gwahaniaeth

Ar ôl y digwyddiad llwyddiannus cyntaf yng Nghaerdydd yn 2014, cynhaliwyd ail Gynhadledd Merched yn Gwneud Gwahaniaeth ar 2 Hydref 2015 yn Wrecsam. Bwriad y gynhadledd oedd helpu i gryfhau dyheadau a dangos bod gyrfaeoddi i ferched mewn rolau llai traddodiadol – megis gwyddoniaeth, peirianeg a phenderfynwyr mewn gwasanaeth cyhoeddus – ar gael i bawb.

Yn ystod y digwyddiad hefyd, anogwyd menywod ifanc i roi eu golygon ar uwch rolau drwy ddarparu cyngor, canllawiau a modelau rôl ar bob lefel i ddangos sut mae menywod llwyddiannus wedi cyrraedd y brig. Daeth dros gant o ferched o'r gogledd i'r digwyddiad a chlywed gan siaradwyr ysbrydoledig megis Dr Olwen Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Athletwraig Baralympaidd, Pippa Britton.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 7

Daw'r dangosyddion a ganlyn o wybodaeth reoli adrannol:

Canran y penodiadau cyhoeddus newydd sy'n fenywod, yn bobl anabl ac yn perthyn i leiafrifoedd ethnig:

Yn 2015-2016, menywod oedd 48.9% o'r rheini a benodwyd i swyddi cyhoeddus rheoledig, cyfran debyg i'r flwyddyn flaenorol (48.5%). Penodwyd cyfran gymharol lai o'r rheini a nododd eu bod yn anabl (4.3%, o'i gymharu â 7% yn 2014-2015). Penodwyd cyfran gymharol uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig (6.4% o'i gymharu â 4.2% yn 2014-2015). Mae'r canrannau ar gyfer y menywod a'r bobl anabl a benodwyd yn is na chyfran y grwpiau hyn o gyfanswm y boblogaeth oedran gweithio, fel y'u pennir yn yr Arolwg Poblogaeth cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016 (50.3% ar gyfer benywod a 21.1% ar gyfer pobl ag anabledd (yn unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb)).

Nifer y penodiadau cyhoeddus newydd wedi'u dadelfennu yn ôl rhyw/anabledd/ethnigrwydd:

Yn 2015-2016, roedd 47 o benodiadau cyhoeddus rheoledig newydd. O blith y rhain, roedd 23 yn fenywod, tri o grŵp lleiafrif ethnig a dau a oedd yn dweud eu bod yn anabl.

Nifer yr ailbenodiadau cyhoeddus newydd wedi'u dadelfennu yn ôl rhyw/anabledd/ethnigrwydd:

O blith y 65 ailbenodiad cyhoeddus yn 2015-2016, roedd 40.0% yn fenywod; ac ni nodwyd eu rhyw gan ddau. Roedd 1.5% yn dod o grŵp lleiafrif ethnig a 4.6% yn dweud eu bod yn anabl. Mae'r canrannau ar gyfer pob un o'r tri grŵp yn is na'r rheini ar gyfer 2014-2015.

Nifer y bobl sy'n ymgeisio am benodiadau cyhoeddus wedi'i ddadelfennu yn ôl rhyw/anabledd/ethnigrwydd:

Yn 2015-2016, ymgeisiodd 955 o bobl am benodiad cyhoeddus. Roedd 352 o'r rhain yn fenywod (36.9%), 82 yn anabl (8.6%) a 75 o gefndir lleiafrif ethnig (7.9%). Felly, mae menywod (50.3% o'r boblogaeth oedran gweithio) a phobl anabl (21.1% o'r boblogaeth oedran gweithio'n unol â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) yn dal i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ceisiadau am benodiadau cyhoeddus.

Cyfraddau llwyddo yn y cyfyngau recriwtio wedi'u dadelfennu yn ôl rhyw/anabledd/ethnigrwydd:

O blith y 955 o bobl a ymgeisiodd am benodiadau cyhoeddus yn 2015-2016, rhoddwyd 256 ar y rhestr fer (26.8%) a phenodwyd 70 (7.3%). O blith y 352 o ymgeiswyr a oedd yn fenywod, rhoddwyd 33.2% ar y rhestr fer a phenodwyd 9.9%. O'i gymharu â hyn, rhoddwyd 23.6% o ddynion ar y rhestr fer, a phenodwyd 6.1%.

O blith y 75 o ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, rhoddwyd 18.7% ar y rhestr fer a phenodwyd 5.3%. Yn yr un modd, o blith yr 82 o ymgeiswyr anabl, rhoddwyd 17.0% ar y rhestr fer a phenodwyd 2.4%.

O blith y 70 o ymgeiswyr a benodwyd, roedd 35 yn fenywod (50%) 35 yn wrywod (50%), dau yn anabl (2.9%) a phedwar o gefndir lleiafrif ethnig (5.7%).

Amcan 8

Creu gweithle mwy cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff â nodweddion gwarchoddedig drwy wella gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i bob aelod o staff

Rhagarweiniad

A hithau'n gyflogwr, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal ac mae'n rhoi gwerth ar unigolyddiaeth ac amrywiaeth. Disgwylir i holl staff Llywodraeth Cymru ddeall eu cyfrifoldebau gyda golwg ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Ein Camau Gweithredu

Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sefydlwyd Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cynnwys aelodau o uwch reolwyr pob maes busnes, Cadeiryddion Rhwydwaith Amrywiaeth y Staff a'r Undeb Llafur. Datblygodd y Grŵp Gynllun Gweithredu ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cyflawni, ac am sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwrw gwreiddiau ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae proses ymgynghori glir ar waith gyda'n Rhwydweithiau Amrywiaeth gyda golwg ar bob newid polisi. At hynny, mae materion polisi allweddol yn cael eu gosod gerbron ein Pwyllgor Gweithrediadau, ac os bydd gofyn cael rhagor o ymgysylltu, bydd aelodau'r Pwyllgor Gweithrediadau'n enwebu staff perthnasol o'r tu mewn i'w meysydd busnes i fwydo gwybodaeth i'r broses ymgynghori. Rydym hefyd wedi lansio grŵp cymryd rhan newydd. Bydd y grŵp newydd hwn yn ehangu cyrhaeddiad y cynllun peilot gan ymgynghori i ddechrau â'r staff am Bolisiau Adnoddau Dynol. Ar ôl y cynllun peilot, bydd y grŵp yn ehangu ei gwmpas i gynnwys cynlluniau corfforaethol eraill. Bydd hyn yn help i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd statudol o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, i gynnwys staff ar draws pob un o'r naw nodwedd warchoddedig wrth ddatblygu polisiau.

Wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn ystod mis Mehefin 2015, cynhaliwyd ystod o weithgareddau fel rhan o'r Wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gan gynnwys cyfres o gyflwyniadau, arddangosfa a digwyddiad "atebion brys". Yn ystod y digwyddiad hwn, cafodd nifer o staff y cyfle i ystyried atebion ar gyfer gwella'r broses Rheoli Perfformiad, datblygu system fwy cynhwysol ar gyfer llunio polisiau a nodi proses fwy effeithlon ar gyfer caffael addasiadau i'r gweithle.

Rhwydweithiau Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi ac yn annog pedwar o Rwydweithiau Amrywiaeth i'r Staff. Maent yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio er mwyn darparu gwahanol fath o gymorth i gydweithwyr nag sydd ar gael fel rheol. Maent hefyd yn gweithredu fel corff cynghori i lunwyr polisïau mewnol ac yn cynnig cyfleoedd i'r staff ennill neu feithrin sgiliau newydd.

Yn ystod 2015, llwyddodd Rhwydweithiau Amrywiaeth y Staff i ddod yn fwy amlwg a gweithgar drwy gynnal ystod o ddigwyddiadau a oedd ar agor i'r holl staff, megis Diwrnod Iaith Arwyddion Prydain a mynychu digwyddiadau Pride drwy Gymru. Dyrannwyd cyllideb o £1000 i bob rhwydwaith a 10 awr o amser cyfleuster i'w defnyddio ar gyfer gweithgarwch y rhwydweithiau.

Ein pedwar rhwydwaith i'r staff yw:

Ymwybyddiaeth a Chymorth ym maes Anabledd

Mae'r grŵp Ymwybyddiaeth a Chymorth ym maes Anabledd yn gweithredu fel rhwydwaith cymorth i staff anabl, gofalgwyr a'r rheini sydd â diddordeb mewn materion anabledd, yn ogystal â darparu cymorth i lunwyr polisïau Llywodraeth Cymru.

Mae gan y rhwydwaith gyfrifoldeb ar y cyd am gryfhau ymwybyddiaeth o faterion anabledd a hybu arferion da. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gweithredu fel grŵp ymgynghori ar gyfer polisïau staff a chynlluniau corfforaethol, gan ddylanwadu ar newid o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnal digwyddiadau i lywio a chryfhau ymwybyddiaeth, sesiynau iaith Arwyddion Prydain er enghraifft. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys tri grŵp rhanbarthol a grŵp Cymru gyfan i sicrhau cynrychiolaeth i staff sy'n gweithio ledled Cymru.

Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig

Mae'r Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig yn ceisio helpu ei aelodau i gyflawni eu potensial llawn ac i gyfrannu at wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru'n brofiad sydd o fudd cadarnhaol i'n cymunedau, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu eu dysgu fel unigolion.

Mae'r rhwydwaith yn helpu'r sefydliad i gydymffurfio ag ymarferion meincnodi ac yn darparu gwasanaeth sicrhau ansawdd ar gyfer polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhwydwaith hefyd yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol â chydweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys cynnal digwyddiadau ar y cyd yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r rhwydwaith yn sefydlu rhaglen fentora ac annog i'w aelodau ac yn cynnig aelodaeth gysylltiol i staff ethnig nad ydynt yn perthyn i leiafrif ethnig.

Rhwydwaith Menywod (Menywod Gyda'i Gilydd)

Menywod Gyda'i Gilydd yw'r rhwydwaith i fenywod yn Llywodraeth Cymru ac i'r rheini sydd â diddordeb mewn materion sy'n effeithio ar fenywod. Drwy gyfrwng amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau, nod y rhwydwaith yw darparu cyfleoedd i helpu unigolion i gyflawni eu potensial drwy gysylltu, dysgu a rhannu ag eraill. Mae'r rhwydwaith yn chwarae rhan bwysig yn nodi ac yn hybu arferion da yn y gweithle yn ogystal â thrwy fod yn grŵp ymgynghori ar gyfer polisïau a chynlluniau mewnol.

PRISM

PRISM yw rhwydwaith staff Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhyw sy'n cefnogi staff sy'n eu hystyried eu hunain yn lesbiaid, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn drawsrywiol neu sydd â hunaniaeth rhywedd annodweddiadol. Bydd PRISM yn cydweithio â'r sefydliad i greu amgylchedd gweithio diogel, cynhwysol ac amrywiol sy'n annog diwylliant o barch a chydaddoldeb i bawb er mwyn i bob un gyflawni ei botensial llawn heb ofni gwahaniaethu annheg.

Bu rhwydwaith PRISM yn cydweithio'n agos â'r sefydliad i wella sgôr Llywodraeth Cymru ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Cododd Llywodraeth Cymru i'r ail safle ar bymtheg o blith 400 o ymgeiswyr o'i safle yn y flwyddyn flaenorol, sef pedwerydd ar ddeg ar hugain. Dyfarnwyd gwobr Rhwydwaith y Flwyddyn Cymru hefyd i Rwydwaith Amrywiaeth PRISM gan gydnabod yr ymdrech aruthrol y mae'r rhwydwaith wedi'i wneud i wella amlygrwydd a chynnig cymorth i gydweithwyr LGBT+ neu sydd â ffrindiau a theulu sy'n LGBT+. Cynhaliodd PRISM gyfres o sgysiau addysgiadol gyda'r nod o gynyddu'r ymwybyddiaeth o faterion LGBT+ yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach.

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Eleni, datblygwyd rhaglenni datblygu personol wedi'u teilwra ar gyfer aelodau o'n rhwydweithiau amrywiaeth.

Rhaglen Menywod yn Arwain

Ym mis Ebrill 2015, lanswyd y Rhaglen Menywod yn Arwain. Nod y rhaglen newydd hon sy'n cael ei hariannu'n ganolog yw cefnogi'r addewid o sicrhau cydbwysedd cyfartal rhwng y rhywiau, 50 : 50 o fewn yr Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020, drwy ddarparu'r cyfle i ddatblygu menywod eto i ysgwyddo rolau uwch arweinwyr. Gorffennodd y garfan gyntaf o 16 o gynrychiolwyr y rhaglen ym mis Chwefror 2015. Drwy adeiladu ar yr adborth cadarnhaol gan y cynrychiolwyr hyn, dechreuodd ail garfan ym mis Hydref 2015, gydag 19 o gynrychiolwyr.

Nod y Rhaglen yw rhoi dealltwriaeth ddyfnach i'r cynrychiolwyr ohonynt eu hunain fel arweinwyr a'r heriau y gallent eu hwynebu wrth ysgwyddo rôl uwch yn y Gwasanaeth Sifil. Bydd y rhaglen hefyd yn rhoi'r hyder i'r sawl sy'n ei dilyn a'r ehangder sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd ymarferol i'w helpu i wneud ceisiadau yn y dyfodol am rôl Uwch yn y Gwasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru.

Rhaglen PRISM

Rhaglen beilot 3 mis oedd y Rhaglen PRISM/LGBT+ a Datblygu Personol a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2016. Roedd y rhaglen ar agor i gydweithwyr ar bob lefel ac yn cynnwys pecyn diagnostig, cyfres o weithdai a siaradwyr gwadd gyda'r nod o alluogi'r sawl oedd yn ei dilyn i feithrin dealltwriaeth ddyfnach ohonynt eu hunain fel unigolion a'r heriau y gall cydweithwyr LGBT+ eu hwynebu yn y gweithle.

Roedd y rhaglen wedi'i hanelu at gydweithwyr LGBT+ a oedd yn gallu dysgu ar y cyd mewn amgylchedd diogel, trafod a rhannu profiadau a ffurfio rhwydwaith o gymorth i'w gilydd.

E-ddysgu

Lansiwyd cwrs e-ddysgu am Ragfarn Anymwybodol yn 2015, sy'n orfodol i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses recriwtio. Mae cyrsiau arlein eraill ar gael sy'n canolbwyntio ar Elfennau Hanfodol Ymwybyddiaeth o Anabledd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, Ymwybyddiaeth o LGBT ac Ymwybyddiaeth o Hil.

Lleoliadau Gwaith

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig amrywiaeth o leoliadau i roi cyfle i unigolion brofi byd gwaith. Mae'r rhain yn amrywio o leoliadau gyda thâl a heb dâl i'r rheini o blant oedran ysgol i israddedigion a lleoliadau i raddedigion. Rydym ar hyn o bryd yn cymryd rhan yn y cynlluniau amrywiaeth canlynol sy'n cynnig lleoliadau:

Cymrodoriaeth Windsor

Lleoliadau 8 wythnos a 50 wythnos i israddedigion o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yw hwn. Byddant yn cwblhau 8 wythnos yn ystod eu hail flwyddyn yn y brifysgol a lleoliad 50 wythnos ar ôl iddynt raddio.

Interniaethau Amrywiaeth Haf Swyddfa'r Cabinet

Cynigir lleoliadau 9 wythnos i israddedigion a graddedigion diweddar sy'n meddwl am ymgeisio ar gyfer y Llwybr Cyflym ac sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol di-fraint.

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyflogwyr 2014-2015

Yn ôl Rheoliad 9 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae gofyn i awdurdodau sydd wedi'u rhestru gasglu a chyhoeddi gwybodaeth benodol am gyflogaeth bob blwyddyn ar gyfer eu gweithlu, gan gynnwys yr wybodaeth honno wedi'i dosbarthu yn ôl pob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Mae Rheoliad 16(2)(f) yn golygu bod modd cipio'r wybodaeth am gyflogaeth mewn adroddiad ar wahân i'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, ar yr amod bod adroddiad ar wahân wedi'i gyhoeddi eisoes erbyn i'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol gael ei gyhoeddi.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb y Cyflogwr bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth. Mae'r adroddiad yn rhoi golwg gyffredinol ar y gwaith sydd wedi'i wneud i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle gan gynnwys:

- Data am y gweithlu.
- Gweithgarwch recriwtio ac allgymorth.
- Darpariaeth hyfforddi.
- Gweithgareddau gyda'r nod o gefnogi amgylchedd cynhwysol.

Bydd Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyflogwyr ar gyfer 2015-2016 yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017.

Dangosyddion ar gyfer Amcan 8

Daw'r dangosyddion a ganlyn o wybodaeth reoli adrannol:

Cyfradd gynrychiolaeth y gweithlu yn ôl grŵp gwarchoddedig:

Menywod yw 58% o weithlu Llywodraeth Cymru, ac felly o'u cymharu â'r boblogaeth, maent wedi'u gorgynrychioli. O blith y rheini a ymatebodd i gwestiynau am nodweddion eraill, mae 2% yn bobl nad ydynt yn wyn; 5% yn anabl; a 3% nad ydynt yn heterorywiol.

Mae 63% o'r rheini a ymatebodd yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Serch hynny, dim ond 43% yw'r ganran o'i chymryd ef fel cyfran o'r holl staff (nid atebwyd y cwestiwn hwn gan ryw 32% o'r ymatebwyr). Cristnogion yw'r nifer fwyaf o staff (44%). Mae 4% arall o'r staff yn perthyn i 'grefydd arall' ac roedd yn well gan 31% beidio â dweud. Y gweddill yw'r rheini heb grefydd (19%) a'r rhai nad oeddent wedi ateb (2%).

Yn olaf, mae dosbarthiad oedran aelodau'r gweithlu yn normal, gan frigo yn yr ystod 40-54 oed (45% o'r staff), a'r niferoedd yn gostwng ym mhen iau a hŷn y raddfa.

Mynegai ymgysylltu'r Arolwg Pobl yn ôl grŵp gwarchoddedig:

Dadansoddwyd canlyniadau Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru 2016 i archwilio gwahaniaethau yn agweddau a phrofiadau'r grwpiau cydraddoldeb a ganlyn – Rhywedd, Anabledd, Ethnigrwydd, Crefydd a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Mae'r dadansoddiad yn cymharu'r gwahaniaethau gan ddefnyddio'r sgôr ymgysylltu â gweithwyr, sy'n cael ei gyfrifo ar sail ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Rwy'n falch pan fyddaf yn dweud wrth bobl eraill fy mod yn rhan o'r sefydliad.
- Byddwn yn argymhell y sefydliad fel lle gwydych i weithio.
- Rwy'n teimlo ymlyniad personol cryf i'r sefydliad.
- Mae'r sefydliad yn fy ysbrydoli i wneud fy ngorau yn fy swydd.
- Mae'r sefydliad yn fy nghymhell i'w helpu i gyflawni ei amcanion.

Y sgôr ymgysylltu cymedrig ar gyfer Llywodraeth Cymru oedd 62%. O ran rhywedd, cafwyd y sgôr ymgysylltu uchaf gan staff benywaidd, sef 66% ac roedd sgôr staff gwrywaidd fymryn o dan y cyfartaledd (61%).

Roedd sgôr ymgysylltu cyfartalog staff â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol tymor hir, salwch, nam neu anabledd fymryn yn is na'r cyfartaledd (61%). Yn y grŵp hwn, roedd yr ymgysylltu'n is ymhlith staff a oedd yn dweud bod cyflwr, afiechyd, nam neu anabledd yn effeithio ar eu gweithgarwch dyddiol neu eu gwaith 'llawer' (55%), o'i gymharu â'r rheini a ddywedodd nad oedd ond yn cael 'ychydig' (61%) neu 'ddim' effaith (63%).

Roedd sgôr ymgysylltu'r rheini a ddywedodd eu bod yn bobl dduon neu o gefndir lleiafrif ethnig yn uwch na'r cyfartaledd (67%), a staff 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig' oedd â'r sgôr ymgysylltu uchaf sef 71%.

Roedd sgoriau ymgysylltu'r staff a ddywedodd eu bod yn 'Gristnogion' (65%), yn 'Fwdhyddion' (63%) a'r rhai 'heb grefydd' (62%) yr un fath â'r cyfartaledd neu fymryn yn uwch. Roedd sgôr ymgysylltu'r staff a ddywedodd eu bod yn perthyn i 'unrhyw grefydd arall' (55%) ac yn 'Fwslim' (49%) yn is na'r cyfartaledd.

Roedd sgôr ymgysylltu staff a ddywedodd eu bod yn 'heterorywiol/strêt' (64%) ac yn 'Hoyw neu'n Lesbiaid' (63%) yr un fath â'r cyfartaledd neu'n uwch. Roedd sgôr ymgysylltu staff a ddywedodd eu bod yn 'ddeurywiol' fymryn yn is na'r cyfartaledd (59%). Y rheini a ddewisodd 'arall' oedd â'r sgôr ymgysylltu isaf (43%).

Ym mhob grŵp, roedd sgoriau ymgysylltu'r rheini a ddewisodd 'gwell gen i beidio â dweud' yn is na'r cyfartaledd.

Sylwer bod pob cymhariaeth, ac eithrio ar gyfer y rhywiau, wedi'u seilio ar grwpiau o faint bach iawn, ac felly y dylid eu dehongli'n ochelgar.

Cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi a rheoli doniau yn ôl grŵp gwarchoddedig:

Yn 2015-2016, roedd 60% o'r rheini a oedd yn dilyn cyrsiau hyfforddi'n fenywod. Ac eithrio lle na roddwyd ateb a 'gwell gen i beidio â dweud', staff o leiafrifoedd ethnig oedd 2.2% o'r rhai a oedd yn dilyn cyrsiau, roedd 5.4% yn anabl a 3.1% heb fod yn heterorywiol.

Roedd 43.2% o'r rhai a oedd yn dilyn cyrsiau'n briod neu mewn partneriaeth sifil, 26.3% yn sengl neu â statws arall a 30.5% heb roi ateb neu roedd yr ateb yn anhysbys. Roedd 44.5% yn Gristnogion, roedd 3.9% yn perthyn i grefydd arall a 20.4% heb ddim crefydd. Dewisodd 29.2% 'gwell gen i beidio â dweud' ac ni roddodd y 2% arall ateb.

Adborth yn sgil rhoi addasiadau rhesymol ar waith:

- Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol yn gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o'r addasiadau rhesymol sy'n amrywio o fyseddellau a llygod i feddalwedd cynorthwyol megis Dragon Dictate. Gan fod y gweithlu'n heneiddio, mae nifer yr addasiadau a ddarperir yn dal i gynyddu, o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Ar ôl y problemau cydweddu a welwyd yn 2015 pan ddiweddarwyd y seilwaith TGCh, cynhaliwyd digwyddiad atebion brys ac adolygwyd ein polisi a'n prosesau ar gyfer addasiadau rhesymol. Yn ystod yr adolygiad, ymgysylltwyd â chyrrff allanol a chynnwys yr hyn a ddysgwyd wrth ailbeiriannu'r broses. Bu'r prosiect yn cydweithio'n agos â'r rhwydwaith DAAS, TGCh, Cyfleusterau ac Adnoddau Dynol i sicrhau bod y broses derfynol yn canolbwyntio ar yr unigolyn sydd ag angen yr addasiad. Mae'r rownd gyntaf o weithdai rhanddeiliaid wedi gorffen bellach a'r broses newydd wrthi'n cael ei chynllunio a llawer o welliannau fesul cam eisoes wedi'u cyflwyno.
- Yn ogystal â hyn, mae rôl Rheolwr Achosion Cymhleth bellach wedi'i sefydlu i adolygu a gweithredu ar geisiadau am addasiadau rhesymol sydd wedi bod yn anodd eu rhoi ar waith a chynhyrchu Gwybodaeth Reoli ystyrllon yn llinell sylfaen ar gyfer y perfformiad ac er mwyn ei fesur.

Cyfradd sy'n dilyn cyrsiau cydraddoldeb ac amrywiaeth:

Mae mwy o fenywod na dynion yn dilyn cyrsiau cydraddoldeb ac amrywiaeth (62%) a phobl wyn yw 95% (o'r rhai a ymatebodd) ar y cyrsiau hyn. Yn yr un modd mae 93% (o'r rhai a ymatebodd) yn rhai nad ydynt yn anabl, ac mae 85% yn heterorywiol. Mae 61% o'r ymatebwyr yn briod neu mewn partneriaeth sifil (44% heb gynnwys y rhai nad atebodd).

Cristnogion yw 45% o'r rhai sy'n dilyn y cyrsiau. Rheini sydd â chrefydd arall yw 4%, ac roedd y rhai yr oedd yn well ganddynt beidio â dweud yn 30%. Pobl heb ddim crefydd oedd 21% o'r rhai ar gyrsiau.

Mae oedran y rhai ar gyrsiau'n amrywio o 16 i 65+. Mae llai o'r rheini yn yr ystod oedran 60 - 65+ yn dilyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth (1.7% o'r rhai 65+) ac mae nifer fwy yn yr ystod oedran 40 i 54 yn dilyn hyfforddiant (a'r brig rhwng 50 a 54 oed – 16.3%).

Pennod 4 – Edrych tua’r Dyfodol

Ym mis Ebrill 2015, dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â’r adolygiad a diwygio’i hamcanion cydraddoldeb o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol y dyfodol 2016-2020 pan lanswyd yr ymgynghoriad 12 wythnos. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdai drwy Gymru ac fe wahoddwyd rhanddeiliaid y Trydydd Sector i gynnal eu grwpiau ffocws eu hunain. Drwy’r ymgysylltu hwn, cafodd y rhanddeiliaid gyfle i ddylanwadu ar ddatblygu’r amcanion cydraddoldeb.

Ategwyd yr ymatebion i’r ymgynghori a’r ymgysylltu drwy gyhoeddi adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ‘A yw Cymru’n Decach?’ Roedd yr adroddiad, a oedd wedi’i seilio ar ymchwil a thystiolaeth, yn darparu manylion am i ba raddau yr oedd cynnydd wedi’i wneud ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn ystod y cyfnod 2010-2015.

Ar sail yr ymgysylltu a’r dystiolaeth, datblygwyd wyth o amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020 a oedd yn cynnwys chwech amcan wedi’u diwygio a dau amcan newydd. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 ym mis Rhagfyr 2016, ynghyd â’n camau gweithredu i fwrw ymlaen â’r amcanion hynny. Mae’r amcanion newydd yn adeiladu ar y gwaith rydym wedi’i wneud eisoes dros y pedair blynedd diwethaf ac yn help inni barhau i brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth i’n holl waith, gan fynd i’r afael â’r meysydd anghydraddoldeb sydd o’r pwys mwyaf i holl bobl Cymru.

Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020

Amcan 1

- Rhoi anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig wrth galon cynllunio a darparu’r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y gwasanaethau iechyd a iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth. Yn benodol, sicrhau cymorth i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw’n annibynnol a chael llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau, gan fynd i’r afael â’r pethau sy’n rhwystro hynny.

Amcan 2

- Sicrhau bod darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth ar gael i helpu pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg.

Amcan 3

- Adnabod a lleihau’r pethau hynny sy’n achosi anghydraddoldebau ym maes cyflogaeth, sgiliau a chyflogau sy’n gysylltiedig â rhywedd, ethnigrwydd, oedran ac anabled, gan gynnwys cau’r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau’r nifer o bobl nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

Amcan 4

- Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid hynny'n unig) trais yn erbyn menywod, troseddau casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

Amcan 5

- Darparu cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus drwy adnabod y pethau hynny sy'n rhwystro pobl o wahanol gefndiroedd rhag ymgysylltu a chymryd rhan, a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Amcan 6

- Cryfhau cydlyniant cymunedol drwy feithrin cysylltiadau da, cynhwysiant, parch pobl at ei gilydd, a dealltwriaeth o fewn cymunedau a rhwng cymunedau ledled Cymru.

Amcan 7

- Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw i'r grwpiau hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o fyw ar aelwyd incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni unigol, grwpiau o leiafrifoedd ethnig penodol a theuluoedd â phlant anabl.

Amcan 8 – Amcan Adnoddau Dynol Mewnol Llywodraeth Cymru

- Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

Pennod 5 – Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb 2016

Cyflwyniad

O dan Reoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2010, mae'n ddyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad sy'n rhoi golwg gyffredinol ar y cynnydd y mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig wedi'i wneud o ran cyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad llawn cyntaf ar 19 Rhagfyr 2014 ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2015 a mis Rhagfyr 2016.

Pwrpas yr adroddiad hwn/y bennod hon

Yr adroddiad interim yw hwn a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar y camau y cyfeiriwyd atynt ym Mhennod 4 o'r adroddiad cyntaf yn 2014, gan ddilyn fformat a threfn y camau yn adroddiad 2014.

Roedd Pennod 4 o adroddiad 2014 yn rhestru nifer o gamau i sicrhau rhagor o gynnydd tuag at gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Rhannwyd y camau hyn yn ddau gategori, yn gamau strategol ac yn heriau cyffredinol penodol a hynny ar draws y sector cyhoeddus. Rhestrir y camau isod.

Cryfhau Gweithredu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Camau

Camau Strategol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae datblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cydnabod y rhan y gall cyrff cyhoeddus ei chwarae wrth gryfhau'r broses o weithredu'r ddyletswydd. Mae Deddf 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn modd cynaliadwy.

Cafodd Deddf 2015 gydsyniad brenhinol ym mis Ebrill 2015, a daeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau i rym ar 1 Ebrill 2016.

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus penodedig a restrwyd yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, a cheisio atal problemau a gweithio mewn ffordd mwy cydgysylltiedig. Mae Deddf 2015 yn rhoi saith nod llesiant ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n ceisio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant.

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir:

- gydweithio'n well a chydweithredu i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd;
- cynnwys pobl er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau;
- edrych tua'r tymor hir yn ogystal â chanolbwyntio ar nawr;
- cymryd camau i geisio atal problemau rhag gwaethygu – neu hyd yn oed eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf;
- arddel agwedd gyfannol drwy edrych ar y nodau llesiant wrth benderfynu ynghylch eu blaenoriaethau.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru fwy cyfartal drwy gyfrwng un o'r saith nod llesiant, gan gyfeirio at anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Rhaid i bob un o'r gyrff cyhoeddus a restrir o dan y Ddeddf osod ei amcanion ei hun i sicrhau ei fod yn cyfrannu gymaint ag y bo modd at yr holl nodau llesiant.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth roi elfen cymryd rhan egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar waith. Nod hyn yw sicrhau bod buddiannau'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu hystyried yn benodol wrth osod a chyflawni'r amcanion llesiant.

Cyhoeddwyd canllawiau statudol ar gyfer y gyrff cyhoeddus hynny sy'n dod o dan y Ddeddf ym mis Chwefror 2016. Seiliwyd datblygu'r canllawiau ar 'gyfnod cymryd rhan' rhwng mis Chwefror a mis Mai 2015 ac ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar y canllawiau drafft a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2015.

Mae'r pecyn canllawiau statudol yn cynnwys pedair dogfen sy'n ymwneud â Chanllawiau Craidd y Ddeddf; canllawiau i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf i'w helpu i bennu amcanion llesiant, cyhoeddi datganiad llesiant, adolygu amcanion ac adrodd am gynnydd; canllawiau am y swyddogaeth ar y cyd sydd gan y gyrff sy'n cymryd rhan yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; a chanllawiau ar gyfer cynghorau cymuned ynglŷn â chymryd camau rhesymol i gyfrannu at y cynllun llesiant lleol.

Mae canllawiau anstatudol wedi'u cyhoeddi hefyd am sut y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddi.

Sut mae mesur cynnydd cenedl?

Er mwyn cyflawni'r saith nod llesiant ar y cyd mae angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i ni i gyd weld a yw pethau'n gwella, i Gymru gyfan. Dyna pam bod y Ddeddf wedi ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol. Yn ystod 2015/16, aeth gwaith yn ei flaen i ddatblygu set o ddangosyddion cenedlaethol ac ymgynghori arnynt i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Ar 16 Mawrth, cyflwynodd Carl Sargeant – y Gweinidog ar y pryd – set o 46 dangosydd cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dangosyddion oedd y rhain a oedd yn mesur Cymru gyfan, ac nid oeddent wedi'u dylunio i fesur perfformiad gyrff cyhoeddus penodol.

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r dangosyddion ym mis Rhagfyr 2014 gyda chomisiwn i Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru gynghori ar ddatblygu'r dangosyddion.

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddwyd set ddrafft o 40 dangosydd cenedlaethol i gasglu barn ar p'un a fyddai'r rhain yn ein helpu i ddeall, dros amser, pa gynnydd oedd yn cael ei wneud i gyflawni'r saith nod llesiant. Pennwyd pedwar maen prawf hanfodol i lywio datblygiad y dangosyddion, sef (i) sicrhau bod y niferoedd yn fyr a bod modd eu rheoli, (ii) sicrhau eu bod yn fesurau ar gyfer Cymru gyfan, (iii) dylent fod yn gydlynol ac yn gydnavs, a (iv) rhaid i'r cyhoedd uniaethu â'r dangosyddion.

Mae pennu'r dangosyddion cenedlaethol yn garreg filltir bwysig ym mhroses Cymru o roi'r Ddeddf arloesol ar waith. Mae'r ymgynghoriad wedi dangos yr her o ganfod set o ddangosyddion a fydd yn adrodd stori o fywyd yng Nghymru a all olrhain ein cynnydd tuag at y Gymru a Garem a ddisgrifir yn y saith nod llesiant. Roedd un o'r themâu allweddol a gododd drwy'r ymgynghoriad yn ymwneud â chydaddoldeb. Mewn ymateb i hyn, nodwyd dangosyddion cenedlaethol a fyddai'n elwa o ddadansoddi yn ôl grwpiau a amddiffynnir yn ogystal â chyflwyno dangosydd newydd ar y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau.

Cyhoeddwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gan Weinidogion er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fel y nodwyd yn nogfen Dangosyddion Cenedlaethol Cymru: Dogfen Dechnegol (2016), caiff 25 o'r 46 dangosydd eu dadgyfuno gan nodweddion gwarchoddedig. Er hynny, mae'r ddogfen yn nodi, pan mai dyma'r sefyllfa, na fydd yr holl ddata ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Caiff y dangosyddion eu dadansoddi, lle mae'r data yn gadarn ac yn briodol i'w defnyddio yn y cyd-destun hwnnw.

Bydd darparu tystiolaeth ar ganlyniadau sydd wedi'u dadgyfuno, lle y bo'n bosibl, yn ôl nodweddion gwarchoddedig, yn cefnogi cyrff cyhoeddus i symud ymlaen, a nodi ble y ceir gwahaniaethau allweddol.

Gellir gweld manylion llawn y dangosyddion cenedlaethol yma: www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?skip=1&lang=cy

Rhaglen Lywodraethu – Symud Cymru Ymlaen

Ar 20fed o Fedi 2016 cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen, sef y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Rydym ni'r Llywodraeth yn awyddus i sicrhau economi gryfach a thecach, gwasanaethau cyhoeddus gwell a diwygiedig a Chymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Anelir y prif flaenoriaethau hyn at wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bawb, ar hyd pob cam o'u hoes a rhoi cymorth iddynt pan fydd angen help arnynt fwyaf. Rhaglen Lywodraethu yw hi sy'n ymateb i'r cyfleoedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym wedi nodi ymhle y mae gan Lywodraeth Cymru'r gallu i sicrhau'r effaith fwyaf a sut y bydd ein hymrwymiaidau allweddol yn cyfrannu at y nodau yr ydym yn eu rhannu. Mae a wnelo'r meysydd hyn â'r canlynol:

- Ffyniannus a diogel;
- Iach ac egniol;
- Uchelgais a dysgu;
- Unedig a chysylltiedig.

Bydd y pedwar maes a nodir yn Symud Cymru Ymlaen yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer datblygu pedair strategaeth drawsbynciol sydd wedi'u cydblethu â'i gilydd ac a fydd yn gyfle inni ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r gallu sydd ar gael inni i gael yr effaith fwyaf posibl.

Mae Symud Cymru Ymlaen yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio ag ystod eang o bartneriaid sydd â diddordeb a sicrhau bod syniadaeth ataliol ac ymagweddau tymor hir yn bwrw gwreiddiau yn ein proses llunio polisiau. Rydym am gydweithio'n greadigol â'r holl bartneriaid drwy Gymru i ddod o hyd i atebion i'r heriau yr ydym i gyd yn cydnabod ein bod yn eu hwynebu gan ein helpu i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl yn yr oes ansicr hon.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cynhaliwyd y broses benodi yn ystod hydref 2015 ac roedd yn rhaid iddi gydymffurfio â'r gofynion cydraddoldeb sy'n berthnasol i bob penodiad cyhoeddus yng Nghymru. Gosodwyd hysbysebion ar ystod eang o gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â defnyddio'r cyfryngau hynny. Dosbarthwyd manylion y penodiad ymhlith ystod eang o gyrff cydraddoldeb a chyrrff eraill â diddordeb ac i unigolion a ddywedodd fod ganddynt ddiddordeb mewn penodiad cyhoeddus.

Penodwyd Sophie Howe a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Chwefror 2016. Mae Adran 26 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud darpariaethau ar gyfer panel cynghori i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn rhoi cyngor i'r Comisiynydd. Aelodau'r panel cynghori yw Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, aelod o staff Llywodraeth Cymru a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru i fod yn Brif Swyddog Meddygol Cymru, cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu aelod anweithredol arall o'r corff hwnnw a ddewisir gan y cadeirydd, swyddog y corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru a elwir yn TUC Cymru a enwebir gan y corff hwnnw, cadeirydd neu gyfarwyddwr neu swyddog tebyg y gall Gweinidogion Cymru ei benodi o gorff sy'n cynrychioli unigolion o fyd busnes yng Nghymru, ac unrhyw berson arall y gall Gweinidogion Cymru ei benodi. Mae Adran 27 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud taliadau cydnabyddiaeth i aelodau penodedig.

Creu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Statudol

Daeth Rhan 4 o'r Ddeddf a oedd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiadau o lesiant lleol, a chynlluniau llesiant lleol, swyddogaethau sydd ynghlwm wrth gylch etholiadol llywodraeth lleol. Felly, cyhoeddir y cynlluniau llesiant lleol cyntaf yn 2018.

Wrth ddadansoddi cyflwr llesiant y bobl yn eu hardal, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu hannog i ystyried cynnwys dadansoddiadau o categorïau penodol o bobl, gan gynnwys pobl agored i niwed neu bobl dan anfantais, y rheini sydd â nodwedd warchoddedig, a phlant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Efallai y bydd y Byrddau hefyd yn dymuno nodi categorïau eraill o bobl i'w dadansoddi, gan weithio i ddeall yn well anghenion pobl a'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan yn eu hardaloedd.

Er nad yw'n ddyletswydd benodol ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal asesiadau effaith ffurfiol, mae'r canllawiau statudol o blaid defnyddio asesiadau effaith i asesu llesiant ardal mewn ffordd ystyrion. Cydnabyddir bod gofyn i gyrff cyhoeddus datganoledig unigol gwblhau asesiadau effaith ar gydraddoldeb, y gall fod o fudd eu defnyddio ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Anogwyd y Byrddau hefyd i geisio cyngor a chymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru wrth iddynt wneud eu gwaith.

Rhaid i Gylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys cynigion ar gyfer cynnwys pobl y gymuned yng ngwaith y bwrdd. Dylai'r bobl y bydd y bwrdd yn ymgysylltu â hwy adlewyrchu amrywiaeth pobl yr ardal. Mae'r canllawiau statudol yn pwysleisio nad yw nifer fawr o'r boblogaeth, yn enwedig y rheini nad ydynt wedi'u cynrychioli'n deg ac sy'n anodd eu cyrraedd, yn perthyn yn naturiol i grwpiau a'u bod yn teimlo nad oes neb yn clywed eu llais. Mae llais y dinesydd yn arf grymus, ac er mwyn asesu llesiant yn effeithiol, dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol geisio barn y bobl hynny a pharhau i ymgysylltu â hwy.

Llywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus yn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru. Roedd yr ymateb yn cyfeirio at fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cysylltiedig cyn Etholiad y Cynulliad ac rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r agenda gyffredinol hon. Mae hyn yn mynegi ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Gwella arweiniad democrataidd, amrywiaeth a llywodraethu awdurdodau lleol

Cadeirydd y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol oedd Laura McAllister, Athro Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Roedd adroddiad y Grŵp "Ar Ôl Pwyso a Mesur" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014, yn cynnwys gwahanol argymhellion gyda'r nod o gynyddu cynrychiolaeth menywod, pobl ifanc a grwpiau lleiafrifoedd sy'n dewis sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2017.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith penderfynwyr yng Nghymru ac mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Arbenigwyr, mae wedi sefydlu'r prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau y bydd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu wrth ymuno â bywyd cyhoeddus, ac i ysbrydoli'r unigolion hynny nad oeddent efallai wedi ystyried gwneud hynny o'r blaen.

Penodwyd Arweinydd Prosiect i gydweithio â rhwydwaith o hyrwyddwyr amrywiaeth o'r 22 prif gyngor yng Nghymru, grŵp llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r prif bleidiau gwleidyddol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, elusennau, rhwydweithiau cydraddoldeb a phleidiau

gwleidyddol i fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad yr Arbenigwyr.

1) Rhaglen Fentora Llywodraeth Leol

Lansiwyd y rhaglen fentora, un o brif elfennau'r prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth ym mis Hydref 2014 gyda'r nod o efeillio ymgeiswyr posibl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol â phobl sy'n gynghorwyr eisoes.

Daeth y rhaglen fentora 1-1 i ben ym mis Gorffennaf 2016, a gofynnwyd i'r 46 o bobl a oedd yn cael eu mentora a'r 61 o fentoriaid, gwblhau arolygon i ddangos a oeddent yn teimlo bod y rhaglen wedi bod yn fanteisiol, ac yn achos y bobl a gafodd eu mentora, a ydynt yn bwriadu sefyll mewn etholiad. Nododd 20 o'r bobl a gafodd eu mentora eu bod yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau eu cyngor tref/cymuned neu lywodraeth leol yn 2017. Dyma fanylion demograffig y bobl sy'n cael eu mentora: 35 o fenywod, 20 o bobl ifanc (dan 45 oed), 7 o bobl ag anabledau, 8 o bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig, 5 LGBT ac 1 Teithiwr.

Cynigiwyd cyrsiau hyfforddi i gynghorwyr i'w paratoi i fod yn fentor. Yn ogystal â hynny, mae hyfforddiant mewn arweinyddiaeth a'r cyfryngau cymdeithasol wedi cael ei gynnig i fentoriaid a'r rheini sy'n cael eu mentora er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer bywyd cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu pobl anabl sy'n cael eu mentora drwy ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, palanteipyddion a thrwy fynediad at drafnidiaeth hygyrch wrth fynychu cyfarfodydd cyngor gyda'u mentoriaid a hyfforddiant ar y prosiect. Hyd yma, mae £2,895.45 wedi cael ei wario ar gefnogi pobl anabl sy'n cael eu mentora.

Cynhaliwyd digwyddiad yn Adeilad y Pierhead ym mis Hydref 2016 – Wythnos Democratiaeth, a noddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllideb a Llywodraeth Leol, a oedd yn dathlu'r prosiect hyd yma, a lansiad y rhaglen fentora estynedig.

Mae'r rhaglen fentora wedi cael ei hystyngiwr hyd at fis Mawrth 2017 i sicrhau bod yr 20+ o bobl sy'n cael eu mentora ac sy'n dymuno sefyll mewn etholiad yn cael cefnogaeth barhaus. Nid yw'r rhaglen bellach yn cynnig rhaglen gysgodi 1-1 strwythuredig, ond yn hytrach rhaglen fentora gan gymheiriaid ac hyfforddiant parhaus. Er enghraifft, bu Arweinydd Cyngor Casnewydd a dau Hyrwyddwr Amrywiaeth yn y Gogledd yn cwrdd â grwpiau o bobl a sy'n cael eu tangynrychioli i siarad am y cymhlethdodau sydd ynghlwm â bod yn gynghorydd.

Mae rhagor o weithdai wedi'u trefnu ar gyfer mis Tachwedd/Rhagfyr 2016, a byddant yn canolbwyntio ar sgiliau cyflwyno a chadeirio.

2) Ymgyrch Cyhoedduswydd Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Mae ymgyrch cyhoedduswydd parhaus wedi bod ar y gweill, gan ddefnyddio tudalen we arbennig ar gyfer y prosiect, Twitter #DiDCymru a grwpiau preifat ar Facebook i fentoriaid a rhai sy'n cael eu mentora rwydweithio. Dulliau cyhoedduswydd eraill sydd wedi cael eu defnyddio yw clipiau fideo ac ymweliadau â digwyddiadau amrywiol o amgylch y wlad megis yr Eisteddfod, y Sioe Frenhinol, digwyddiadau cydraddoldeb a sioeau lôn am amrywiaeth sy'n ceisio cryfhau proffil rôl cynghorydd llywodraeth leol. Mae'r rhaglen cyhoedduswydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen fentora, drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith pocedi o gymdeithas y gallai fod yn anodd eu cyrraedd fel arall, ac mae wedi annog cyflogwyr, rhwydweithiau cydraddoldeb, a phleidiau gwleidyddol i gymryd sylw o'r angen am amrywiaeth mewn democratiaeth.

3) Cynllun Cyflogwyr Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Mae cyflogwyr wedi cael eu recriwtio gan Lywodraeth Cymru o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, fel 'cyflogwyr sy'n gefnogol' i'r prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth ac wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i gynghorwyr siarad â'u staff am 'fod yn gynghorydd', gan adolygu polisïau hyblyg a chyfnodau rhyddhau o'r gwaith gan hyrwyddo manteision bod yn gynghorydd. Diben y rhaglen cyflogwyr yw ei gwneud yn haws i bobl ifanc sydd mewn swydd lawn amser gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

4) Cynllun Cyfweliadau wrth Ymadael

Mae tîm Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adolygu cynllun cyfweliadau wrth ymadael 2012 ar gyfer cynghorwyr awdurdodau lleol. Y nod yw bod pob cynghorydd sy'n rhoi'r gorau iddi rhwng etholiadau, ac adeg etholiadau'n cwblhau'r arolwg, a bod y data'n cael eu defnyddio i sefydlu pam mae cynghorwyr yn rhoi'r gorau iddi, gan alluogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gydag awdurdodau lleol ac mae arolwg electronig wedi'i ddatblygu, a fydd yn cael ei ddadansoddi gan yr uned Ddata.

5) Cronfa Drws at Democratiaeth

Mae'r prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi rhoi £2,895.45 o gymorth ariannol i bobl anabl sy'n cael eu mentora i fanteisio ar wasanaeth dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, Palandeipyddion a chludiant hwylus i deithio i gyfarfodydd cyngor, hyfforddiant ac i gwrdd â'u mentoriaid.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ar Gam 2 y cynllun gwaith ar gyfer prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth ac fe'i lanswyd ar 13 Hydref 2016.

Bydd Cam 2 yn parhau i adeiladu ar lwyddiant y prosiect i gryfhau'r ymwybyddiaeth o lywodraeth leol drwy'r ymgyrch cyhoeddusrwydd, trwy weithio gyda rhagor o gyflogwyr i annog gweithwyr i ddod yn gynghorwyr, hwyluso digwyddiadau rhwydweithio i bobl ledled Cymru sy'n cael eu mentora ac sy'n gymheiriaid ar gyfer y rhai sydd wedi ymrwymo i gynnal ymgyrch etholiad, sefydlu'r cynllun cyfweliadau wrth ymadael drwy gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a pharhau i roi cymorth ariannol i bobl anabl sy'n cael eu mentora.

Cryfhau'r arweiniad ar draws gwasanaethau cyhoeddus drwy ail-ganolbwyntio a chryfhau elfen gyd-lywodraethu canolfan arweinyddiaeth Academi Cymru, gan sicrhau bod ei rhaglenni'n cael eu defnyddio gan bob sefydliad datganoledig yn y gwasanaethau cyhoeddus

Mae swyddogaeth Arwain Academi Cymru wedi cael ei chryfhau drwy gyfrwng nifer o fecanweithiau anffurfiol a ffurfiol ar lefel Gweinidogion a'r Llywodraeth.

Bydd rhaglen waith Academi Cymru'n cael ei chymeradwyo'n swyddogol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ac fe gynhelir cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd i benderfynu beth yw blaenoriaethau, dylanwad a llwyddiant y rhaglen.

Mae Bwrdd Cynghori Academi Cymru'n dal yn fecanwaith hanfodol i sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn ymgysylltu â datblygu, â chynllunio ac â ffocws y rhaglen waith ddwy ffordd a gynigir i holl staff y gwasanaethau cyhoeddus drwy Gymru.

Nid yw'n ofyniad gorfodol ar gyrrff y sector cyhoeddus i ymgysylltu ag Academi Cymru ond mae Gweinidogion ar draws pob portffolio wedi dweud yn glir yn yr Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2015 ac yn y gwaith parhaus tuag at greu 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru' fod ymgysylltu ag Academi Cymru'n cael ei ystyried yn arfer gorau.

Mae cydnabyddiaeth ac ymrwymiad parhaus bod angen canolfan gref o hyd ar gyfer rhagoriaeth ym maes arwain ar lefel genedlaethol a bod cyfraniad Academi Cymru'n cynnig gwerth ychwanegol, gwerth am arian a manteision sylweddol.

Archwilio opsiynau ar gyfer cryfhau proses uwch-benodiadau i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys datblygu fframwaith cyffredin o egwyddorion ac ystyried rôl bosibl comisiwn penodiadau'r sector cyhoeddus

Mae penodiadau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru'n cael eu rheoleiddio gan gomisiynydd penodiadau cyhoeddus Cymru a Lloegr. Comisiynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Syr Gerry Grimstone i gynnal adolygiad o benodiadau cyhoeddus dan y teitl 'Gwell Penodiadau Cyhoeddus'. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Mawrth 2016. Un o'r argymhellion yw y dylai'r prosesau asesu a dethol fod yn gymesur â'r penodiad dan sylw ac y gallai hynny amrywio o'r naill swydd ac o'r naill gorff i'r llall. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn aros am gyhoeddi'r Cod Llywodraethu a fydd yn disodli'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogion i Gyrrff Cyhoeddus. Fframwaith eang fydd y Cod ac oddi mewn iddo bydd gan Lywodraeth Cymru yr hyblygrwydd i ystyried sut y dylid rheoli ac ymdrin â phenodiadau 'sylweddol'.

Datblygu set o werthoedd sy'n gyffredin i bawb ar bob lefel ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig

Lansiwyd Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2015 yn yr Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Fe'u datblygwyd drwy gydol 2014-15 a bu Academi Cymru'n gweithio gyda'i chymuned o ddysgwyr yn ei chyfanrwydd i ddatblygu'r gwerthoedd ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Gweithio ar gyfer y Tymor Hir, Tyfu a Gwella o Hyd, Cydweithio, Trin Pawb â Pharch a Rhoi Dinasyddion yn Gyntaf. Mae'r rhain bellach wedi'u hintegreiddio'n llwyr i'r canllawiau ategol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy'r rhaglenni deddfwriaethol a pholisi ac mae gan Academi Cymru raglen dreigl o gyfathrebu, cyflawni ac ymgysylltu i sicrhau bod y gwerthoedd yn bwrw gwreiddiau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Datblygu perthynas newydd rhwng pobl a gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cefnogi cyd-gynhyrchu, cydnabod cydgyfrifoldeb a sefydlu gwasanaethau cyhoeddus mwy ataliol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac anghenion pobl.

Roedd hyn yn rhan bwysig o araith y Prif Weinidog i Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus Tachwedd 2015 ac mae'n dal i fod wrth galon ffordd o weithio'r weinyddiaeth yn y tymor hwn. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn prif-ffrydio'r ymagwedd hon.

Dyma rai o'r Heriau Penodol a nodwyd gan y Sector Cyhoeddus

Cais am Ragor o Gymorth

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru'n monitro pa mor effeithiol yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae dyletswyddau penodol y Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb a bennwyd ganddynt. Rhaid iddynt gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n dangos pa mor effeithiol yw eu gwaith o ran cyflawni pob amcan.

Mae'r Comisiwn wedi monitro gweithgarwch o ran y Ddyletswydd ers 2012. Parhaodd y Comisiwn â'i waith monitro yn 2015, gan ganolbwyntio ar y ddyletswydd ymgysylltu ar gyfer llywodraeth leol, gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu ac ar gyfer y gwasanaeth iechyd, a gwella mynediad i bobl hŷn. Mae'r adroddiadau unigol i gyd ar gael ar wefan y Comisiwn.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adolygiad pum mlyneddol dan y teitl 'A yw Cymru'n Decach?' ym mis Rhagfyr 2015 a oedd yn helpu awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth iddynt adolygu eu hamcanion cydraddoldeb. Cyn ei gyhoeddi, cynhaliodd y Comisiwn ddigwyddiad ym mis Gorffennaf 2015 a oedd yn canolbwyntio ar ganfyddiadau cychwynnol 'A yw Cymru'n Decach?' i'r sector cyhoeddus. Roedd y digwyddiad yn help i'r sector cyhoeddus wrth iddo ddysgu am yr heriau allweddol sy'n wynebu Cymru o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, gan nodi'r camau nesaf o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn a thrafod sut y gallent helpu i ddynodi amcanion strategol newydd cyrff cyhoeddus.

Roedd yr adroddiad yn darparu sail dystiolaeth werthfawr wedi'i diweddarau ac yn dangos i ba raddau y mae gwelliannau wedi'u gwneud ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol dros y pum mlynedd diwethaf yn ogystal â nodi saith prif her y bydd angen mynd i'r afael â hwy yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad wedi helpu'r sector cyhoeddus i wireddu agenda sy'n gyffredin i bawb ar gyfer 2016-2020.

Cyfarfu Llywodraeth Cymru, wrth iddi helpu cyrff cyhoeddus i gysoni eu hamcanion cydraddoldeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, â'r Comisiwn ac â chynrychiolwyr cydraddoldeb cyrff y sector cyhoeddus megis rhwydwaith Cydraddoldeb y GIG. Fel rhan o'r trafodaethau, cyhoeddwyd 'taflen ffeithiau' am y cysylltiadau rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Cyfarfu'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd â'r Comisiwn ym mis Gorffennaf 2015 i drafod cysoni dyletswyddau a rôl y Comisiwn.

Mae canllawiau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus yn cynnwys naratif ynglŷn ag arddel dull integredig o gyflawni dyletswyddau eraill gan gynnwys y rheini sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r canllawiau'n cynnwys cysoni dyletswyddau ym maes ymgysylltu â'r trefniadau adrodd a gwerth asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Data Cyflogaeth

Darperir diweddariad fel rhan o'r adroddiad llawn yn 2018. Ymrwymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn 2016. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cymryd rhan lawn yn yr adolygiad hwn gan gynnwys ymateb i'r gofynion ynglŷn â chasglu data am weithwyr.

Data am y Boblogaeth a Defnyddwyr Gwasanaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r Adolygiad o'r Dystiolaeth am Anghydraddoldeb yng Nghymru'n ddiweddar. Mae'r adroddiad yn cyfuno manylion y data diweddaraf sydd ar gael am y boblogaeth a defnyddwyr gwasanaethau o nifer o barthau gwahanol, a'r rheini wedi'u dosbarthu yn ôl y nodweddion gwarchoddedig (lle bydd y rheini ar gael). Mae'n darparu'r dystiolaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau er mwyn i hynny fod o gymorth wrth gyllidebu a gwneud penderfyniadau mewn adrannau.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn Llywodraeth Cymru, mae defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn elfen ganolog o asesu effaith ei phenderfyniadau a'i pholisïau ar bobl Cymru, fel y dangosodd yn ei hymrwymiad i asesu effaith ei phenderfyniadau gwario. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn symud fwyfwy tuag at gyhoeddi asesiad effaith integredig o'i Chyllideb Ddrafft. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ystyried effaith penderfyniadau gwario ar gydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant a'r Gymraeg, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o ba mor gynaliadwy yw'r penderfyniadau a wneir. Mae'r dull integredig hwn yn gyson â'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Er mwyn gwella'r prosesau asesu effaith yn Llywodraeth Cymru, comisiynodd y Prif Weinidog Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad o'i phrosesau ar gyfer gwerthuso effaith penderfyniadau polisi. Pwrpas yr adolygiad oedd gwella'r cyngor a roddir i Weinidogion, a sicrhau bod asesiadau effaith yn ychwanegu gwerth go iawn at lunio polisïau. Os gallwn asesu effeithiau'n well, gall fod cyfle i ddefnyddio'r asesiadau hynny'n ehangach mewn gwasanaethau cyhoeddus, ar adeg pan nad yw erioed wedi bod yn bwysicach inni ddefnyddio adnoddau mewn ffordd gost effeithiol.

Mae Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG wedi datblygu, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghanolfan Ymarfer Cymru.

Mae'r Ganolfan hon yn ffynhonnell ar y cyd o wybodaeth ac arferion y mae sefydliadau o bob cwr o'r Deyrnas Unedig yn cyfrannu ati. Mae'n rhoi i'r sector cyhoeddus yr adnoddau i hybu a chefnogi datblygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd o ansawdd da ac yn drwyadl ac sy'n cyflawni dyletswyddau cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Bydd y Ganolfan yn help i wneud yr Asesiad yn rhan hanfodol o arferion cyhoeddus, ac yn hybu cydraddoldeb a pholisïau teg ledled Cymru.

Er mwyn gwella ansawdd Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb eto penderfynodd cynhadledd flynyddol y Comisiwn yn 2015 **Llunio'r Dyfodol** ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn eu cynnig ac asesu effeithiau i baratoi ar gyfer y dyfodol, i gau'r bwlch cydraddoldeb ac i fynd i'r afael â cham-drin hawliau dynol. Roedd yn pwysleisio ei bod yn hanfodol cael sail dystiolaeth ac fe all cynnwys straeon personol pobl gyfleu pwysigrwydd y penderfyniadau a wneir.

Ymgysylltu

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu mudiad Cefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru (TSSW) (sy'n cynnwys 19 o Gyngorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) i gefnogi'r Trydydd Sector ehangach. Yn benodol, mae'r arian yn sicrhau bod pob sefydliad cymunedol a gwirfoddol yn cael cymorth o ran: helpu gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, cyngor am godi arian, hyfforddiant ar lywodraethu da i Ymddiriedolwyr, a helpu i sicrhau bod perthynas iach yn cael ei chynnal rhwng y Trydydd Sector lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a TSSW sy'n sail i'r cyllid hwn, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae disgwyl y bydd y Cytundeb Partneriaeth ar ei newydd wedd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016, yn mynd i'r afael â sut y mae nodau TSSW yn cyd-fynd â nodau eang Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r grant hwn mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn gweinyddu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a'r Gronfa Meithrin Partneriaeth. Mae'r Gronfa yn cefnogi sefydliadau'r Trydydd Sector i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau a rhaglenni. Yn 2016, crëwyd Rhaglen Weithredu i sicrhau bod y gwaith ymgysylltu a oedd yn digwydd drwy Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn canolbwyntio ar y materion allweddol yr oedd Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn dymuno mynd i'r afael â hwy. Dyma pedair thema Rhaglen Weithredu 2016: Trechu Tlodi; Hybu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Atal Digartrefedd; a Chefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau. Roedd y camau o dan y thema Hybu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys rhoi ystyriaeth i faterion fel cael gwell dealltwriaeth o aml-hunaniaeth hyd at hybu themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o drafodaethau'r Cyngor.

Bydd Rhaglen Weithredu ar ei newydd wedd nawr yn cael ei datblygu i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu ac i ddarparu fforwm ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu polisiau yn y dyfodol.

Amrywiaeth wrth Wneud Penderfyniadau

Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG a gyda'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau lechyd i ddatblygu rhaglen beilot o hyfforddiant, datblygu a chymorth i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn iddynt feddu'r sgiliau, y profiad a'r ddealltwriaeth a fyddai'n eu galluogi i gystadlu'n fwy effeithiol am benodiadau cyhoeddus yn y dyfodol.

Darparwyd y rhaglen hon i 18 o bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru. Roedd y rhaglen beilot yn cynnwys hyfforddiant, darparu mentor a/neu anogwr lleol, a chyfleoedd i bobl sy'n cymryd rhan gysgodi Bwrdd neu Ymddiriedolaeth lechyd.

Cynhaliwyd digwyddiad graddio ym mis Mawrth 2016. Mae'r rhaglen wedi'i gwerthuso a dysgwyd gwersi gan ledaenu arferion da ymhlith Cadeiryddion a Byrddau'r Sector Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2016.

Cafwyd Cais am Dystiolaeth ynglŷn â chynyddu'r gynrychiolaeth o blith menywod a grwpiau eraill sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus yn hydref 2015. Nod y Cais am Dystiolaeth oedd cryfhau ein dealltwriaeth o'r heriau a'r pethau sy'n rhwystro grwpiau penodol rhag cael eu cynrychioli'n ddigonol ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus, a'r camau i fynd i'r afael â hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Caeodd yr ymarfer Cais am Dystiolaeth ar 27 Tachwedd 2015 a chyhoeddwyd yr Adroddiad Cryno ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016.

Mae'r sylfaen dystiolaeth gadarn hon wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ein hymateb i'r ffaith nad yw menywod a grwpiau eraill yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus.

Cyflog Cyfartal

Ariannwyd Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru; a chyfanswm cost y prosiect oedd £4.9 miliwn dros 3 blynedd. Dechreuodd y prosiect ym mis Gorffennaf 2012 ac fe ddaeth i ben ym mis Mehefin 2015. Nod y prosiect oedd deall a 'thorri ar draws' y ffyrdd y mae diffyg cydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran cyflogau'n cael eu hatgynhyrchu'n gyson drwy wahanu'r rhywiau ar sail galwedigaethau mewn cyflogaeth a hunangyflogaeth, drwy'r ffyrdd y caiff 'gwaith menywod ei gcontractio' a thrwy'r ffordd y gweithredir systemau cyflogau.

Un o ganlyniadau pwysig y gwaith hwn oedd datblygu dull Dadansoddi Cyflogaeth y Rhywiau a'u Cyflogau. Bydd y dull hwn yn helpu cyflogwyr i gasglu tystiolaeth a chreu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r gofyniad statudol sydd arnynt i adrodd ar sail Dyletswydd Cyflog Cyfartal Cymru.

Ym mis Medi 2015, ysgrifennodd Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at bob Gweinidog yn tynnu sylw at lwyddiannau rhaglen WAVE gan iddynt roi gwybod i'w rhanddeiliaid am ddull GEPA a fydd yn help iddynt weld ymhle y mae yna fylchau rhwng cyflogau'r rhywiau a hefyd i edrych ar sut y gellid mynd i'r afael â phatrymau a dulliau gweithio sy'n seiliedig ar rywedd.

Ym mis Mawrth 2016, ysgrifennodd y Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi eto at Brif Weithredwyr pob awdurdod lleol yng Nghymru yn eu hatgoffa am eu dyletswyddau o ran mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb rhwng cyflogau'r rhywiau yng Nghymru. Bu'r Gweinidog hefyd yn eu hannog i ddefnyddio dull GEPA i adrodd ynghylch y ddyletswydd i dalu cyflogau cyfartal ac i'w helpu i fynd i'r afael â phatrymau gweithio sy'n seiliedig ar rywedd.

Cyhoeddwyd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2016-2020 ar 10 Mawrth 2016 gan adeiladu ar y cynnydd a welwyd yn ystod y pedair blynedd blaenorol. Mae mynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb o ran cyflogau, sydd wedi'i gynnwys yn Amcan 3, yn flaenoriaeth o hyd.

Casgliad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn helpu i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus penodol yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy tuag at gyflawni nodau llesiant.

Mae'r cyfuniad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb 2010 bellach yn rhoi cyfle i'r sector cyhoeddus roi hwb i gydraddoldeb mewn ffordd fwy cydlynol a strategol. Set integredig o nodau yw'r nodau llesiant ac felly ni ddylid gweld cydraddoldeb a chynhwysiant yn bethau sy'n gysylltiedig yn unig â 'Chymru fwy cyfartal' ond dylid hefyd eu gweld yn elfen hanfodol o'r nodau llesiant eraill.

Wrth inni fwrw ymlaen, mae cyfle i'r sector cyhoeddus ddefnyddio'i amcanion cydraddoldeb diwygiedig a'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol i ddangos sut mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cipolwg ar y cynnydd clir sydd wedi'i wneud dros y ddwy flynedd diwethaf a bydd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r camau hyn eto.